tafod elái

RHAGFYR 2022

Rhif 373

Pris £1

Paratoi at y Nadolig

Aelodau o Teulu Twm, Efail Isaf fu'n gwerthu eu nwyddau yn Ffair Nadolig y pentref (Tudalen 4).

Côr Godre'r Garth yn canu carolau yn Efail Isaf

Canu Plygain

Trefnodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf noson hyfryd yn dysgu am y traddodiad o ganu'r Plygain gyda Parti'r Efail yn yr Hen Lyfrgell, Porth nos Fercher, 30 Tachwedd.

Dathlu'r Nadolig yn y Carpenters Efail Isaf, nos Sadwrn 26 Tachwedd

Noson Greu Torchau Nadolig Ysgol Creigiau

Trefnodd Cyfeillion yr Ysgol Noson Greu Torchau Nadolig nos Fawrth, Tachwedd 29ain, yn neuadd yr ysgol. Roedd hi'n noson lwyddiannus iawn. Diolch o galon i Heledd o Milddail am rannu ei harbenigedd gyda'r grŵp.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd

Diolch arbennig i holl ohebwyr a dosbarthwyr Tafod Elái am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Gallwch danysgrifio i gefnogi Tafod Elái drwy'r wefan tafodelai.cymru

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
20 Ionawr 2023

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

PENTRE'R EGLWYS

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu Miles Richards fu farw ddiwedd mis Tachwedd. Roedd Miles yn gyfreithiwr adnabyddus gyda'i swyddfa yng nghanol Pentre'r Eglwys. Roedd yn frodor o'r ardal ac ymhlith yr olaf i arddel yr acen Wenhwyseg. Yn gymeriad hoffus bydd llawer yn colli ei gyfeillgarwch a'i ffraethineb.

CLWB Y DWRLYN

Nos Iau, 12 Ionawr

Canu Plygain
7yh Yn Eglwys Pentyrch
Y Fari Lwyd
8.30yh yn y King's Arms

Manylion oddi wrth:
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

CYLCH CADWGAN

Clwb y Dwrlyn
Nos Iau 9 Chwefror
am 8yh
Noson yng nghwmni Vaughan Hughes
"Y Cyfansoddiadau - y ffraeo a'r gwobrwyo"
Mynediad: £3
Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

Cymrodorion Caerdydd

Sefydlwyd 1885
3 Chwefror **John Ceiriog Hughes, Mosty Thomas a fi**
Canrif o ddarlledu o Gymru
Arwel Ellis Owen
Tâl aelodaeth am y flwyddyn £10.
I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysyllter â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com
(029 20891802)

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Ymddeoliad Hapus, Peter
Llongyfarchiadau i Peter Davey ar ei ymddeoliad o Brifysgol De Cymru. Gwelodd Peter y Brifysgol yn newid ei henw sawl gwaith yn ei 43 o flynyddoedd o wasanaeth. Rheolwr yr ystafell argraffu oedd Peter ac roedd bob amser yn hynaws ac yn gymwynasgar. Diolch, Peter. Mwynha dy ymddeoliad.

Croeso i Mabli
Mae Annalie Price yn byw yn y Gilfach Goch erbyn hyn ond un o blant Ton yw hi a newydd ddod yn fam-gu. Llongyfarchiadau i Lewis a Beth, dau o gyn-ddisgyblion Llanhari ar enedigaeth Mabli.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Taith Fynydda i Losgfynyddoedd Mecsico



Croeso nôl i Dewi Hughes wedi ei anturiaethau ym Mecsico. Dyma adroddiad ganddo am ei daith ddiddorol.

"Daeth yr amser unwaith eto i grwydro tuag at y mynyddoedd mawr. Tro yma, tri o losgfynyddoedd uchaf Mecsico oedd y nod: *Pico del Fraille* (4800m), *Itza* (5200m) a'r uchaf *Orizaba* (5610m) o fewn pythefnos. Nid yw'n bosib dringo *Popocatepetl* yr ail uchaf yn Mecsico gan ei fod eithaf bywiog dyddiau yma ac i'w weld yn chwydu mwg a lludw o bell!

Gan lanio yn y brifddinas o ugain miliwn, braf oedd medru aros yno am ddeuddydd i fwynhau ychydig o fywyd canol y ddinas ac ymweld *â Teotihuacan* dinas hynafol meso americanaidd a'i byramidau enfawr - cartref wedyn i'r Aztecs am rai canrifoedd.

Roedd angen y diwrnodau yma i gyfarwyddo â'r uchder gan fod dinas Mecsico ei hun dros 2000m uwchben lefel y môr.

Gofal sydd angen ar daith sydd yn heriol o ran esgyn i unrhyw uchder rhag ofn dioddef salwch. Wedi yr oedi angenrheidiol, dyma ddechrau ar ein teithio i Nevado de Toluca, y pedwerydd llosgfynydd uchaf ym Mecsico – yn debyg o ran scramblo o amgylch pedol yr Wyddfa.Teithio wedyn mewn bws mini i gynnig am *Itza.*

Roedd angen cysgu mewn pabell yn uchel tro yma i ddechrau ar ein taith am ddau y bore gan gyrraedd y copa oer erbyn tua wyth y bore. Roedd yr olygfa yn hyfryd adeg yma o'r dydd gyda *Popocatepetl a Phigyn Friar* i'w gweld ar y gorwel.

Wedi gorffwys mewn hacienda dros nos, ymlaen wedyn i ddinas hyfryd Puebla. Braf oedd cael crwydro o gwmpas y ddinas hardd Mecsicanaidd yma sydd wedi medru cadw ei chymeriad ac yn deilwng o ennill statws safle treftadaeth byd eang.

Teithio wedyn am ryw gan milltir nes cyrraedd hostel Oso mewn parc cenedlaethol yn nghysgod llosgfynydd *Orizabo*. Cerdded am ryw oriau nes cyrraedd camp uchel (3700m) a pharatoi am noson tra anghysurus mewn pabell. Gan godi am dri y bore, dyma wisgo y dillad addas – cramponau, menyg cynnes, dillad twym ac ati. Ymhen hir a hwyr a thipyn o bwffian dros y rhewlif ac eira, dyma gyrraedd y copa, a braf oedd medru gweld gwlff Mecsico yn y pellter a llwyfandir Gorllewinol y wlad. Rhaid oedd cadw draw o ochr serth safn y llosgfynydd rhag diflannu i'w berfeddion.

Wedi cyrraedd copa unrhyw fynydd rhaid cofio mai dim ond hanner ffordd yw hi ac roedd angen pwyll i ddisgyn lawr nôl dros yr eira a rhew ar oledd o tua 40 gradd ar adegau. Daeth y siwrne i ben nôl yn y brifddinas. Braf oedd cael diwrnod i ymlacio a dod dros y blinder. Yn amserol, roedd y wlad ynghanol paratoadau i ddathlu *Dia de Muertos* gŵyl fwyaf enwog y wlad ble mae teuluoedd yn coffáu y rhai sydd wedi ein gadael trwy wisgo sgerbydau papier mâché lliwgar, a llawenhau trwy gymdeithasu, dawnsio a bwyta bwyd Mecsicanaidd blasus. Taith i'w chofio – *adios.*

Pencampwriaeth Ddringo

Llongyfarchiadau i Ella Froud-Powell a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Ddringo Ieuenctid Prydain yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y brig fel y ferch orau yng Nghymru yn ei grŵp oedran. Da iawn ti Ella!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiaau gwresog i Erin Jardine yn dilyn ei llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant. Enillodd Erin y wobr gyntaf am yr unawd Telyn a'r ail am y ddeuawd.

Cydymdeimlad

Roedd yn drist clywed am farwolaeth Vi Jones wedi cyfnod hir o salwch. Arferai Vi, a'i diweddar ŵr Gwyn, fyw ar Heol y Parc cyn i salwch ei gorfodi i symud. Cynhaliwyd yr angladd yn amlosgfa Thornhill ar y cyntaf o Ragfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu.

Y Bwganod Brain

Cynhaliwyd y gystadleuaeth flynyddol hon unwaith eto yn ystod hanner tymor yr ysgolion a'r thema eleni oedd mytholeg a chwedloniaeth. Ymddangosodd cymeriadau megis Blodeuwedd, Y Brenin Arthur a'r Dewin Myrddin o gwmpas y pentref a'r enillydd oedd Tamsyn Webster a'r teulu, Bronllwyn gyda'i champwaith arallfydol - UFO Pentyrch a hynnw'n goleuo'n gelfydd gyda'r nos.

Mae rhai yn y pentref yn honni iddyn nhw weld gweithgaredd anarferol 'nôl yn Chwefror 2016 yn y caeau y tu ôl i Maes y Sarn – hofrenyddion milwrol yn hedfan yn isel a phyramid lliwgar enfawr yn cyrraedd y ddaear. Mae tystiolaeth y llygad dystion hyn wedi'i grynhoi mewn llyfr dan y teitl "The Pentyrch UFO." Gwir neu gau? Beth bynnag yw'r ateb dyma oedd yr enillydd mewn cystadleuaeth glos eleni a llwyddwyd i gasglu £350 i hybu gweithgareddau lleol er lles y gymuned.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â theulu Gloria Evans, 20 Heol Dowlais a fu farw'n sydyn ar ôl salwch byr a dirybudd. Roedd Gloria a'i diweddar ŵr, Oscar wedi byw yn y pentref am dros ddeugain mlynedd. Bu'r ddau'n rhedeg

stondin ym Marchnad Pontypridd am flynyddoedd lawer cyn cymryd gofal o Siop Gwalia yn Sain Ffagan. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Pontypridd o dan arweiniad Y Parchedig Eirian Rees. Dymuna Gareth a Susan ddiolch o galon i'r teulu a'u ffrindiau am bob cefnogaeth a chysur yn ystod y cyfnod anodd yma iddynt.

Ffair Nadolig y Pentref
Cynhaliwyd ffair Nadolig y pentref ddydd Sul, Tachwedd 20fed rhwng dau a phump o'r gloch y prynhawn. Daeth nifer dda o bobl i gefnogi'r fenter ac mi roedd amrywiaeth helaeth o stondinau crefft yn Neuadd y Pentref ac yng Nghanolfan Y Tabernacl. Darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Neuadd ac yn Y Ganolfan. I'r sawl a oedd yn llwgu cynigiwyd "pizza poetho'r ffwrn" ym maes Parcio'r neuadd. I roi pawb mewn cywair Nadoligaidd cafwyd datganiadau hyfryd o garolau gan aelodau dau gôr lleol. Roedd yn hyfryd cael clywed Côr Merched sydd newydd ei sefydlu gan Gavin Ashcroft. Braf oedd gweld cymaint o ferched ifanc wedi ymaelodi â'r Côr. Diolch hefyd i aelodau Côr Godre'r Garth am godi hwyl tua diwedd y prynhawn.

Roedd yn achlysur llwyddiannus iawn a chodwyd £1200 i gronfa'r Neuadd.

Canu dros gyfnod yr Ŵyl
Roedd hi'n hyfryd i weld gymaint yn y Carpenters ar gyfer Sesiwn Efail Isaf ar ddiwedd fis Tachwedd. Roedd 'na hwyl mawr yn y canu, a braf hefyd oedd gweld cymaint o offerynnau gwahanol - y delyn, ffidil, bodhrán, mandolin, iwcalili a gitars - a digon o ganu! Mi fydd noson arbennig i groesawu'r Hen Galan yn cael ei chynnal yng Nghlwb y Bont ym Mhontypridd ar nos Sadwrn 14 Ionawr, gyda'r Fari Lwyd o Benarth yn dod i ymweld. Mae'n wych bod drysau'r clwb wedi ail-agor yn ddiweddar, a bydd y noson yn gyfle i gyd-ganu unwaith eto. Dewch ag offeryn, dewch i ganu neu dewch i wrando. Croeso cynnes i bawb. Huw M.

Cyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth
Mae'n bleser cael cyhoeddi y bydd aelodau Côr Godre'r garth yn cynnal eu cyngerdd Nadolig yng nghapel Y Tabernacl nos Sul, Rhagfyr 18fed. Braf fydd cael eu croesawu'n ôl ar ôl saib o ddwy flynedd oherwydd y pandemig.

Y TABERNACL
Brysiwch Wella
Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr i Dilwen Davies sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun yn dilyn codwm cas yn yr ardd. Dymuniadau gorau i Geraint Rees, Heol Iscoed, sydd wedi treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty. Braf deall fod y ddau ohonoch wedi dod adref ac yn gwella yn raddol bach.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Edwyn a Gaynor Evans ar enedigaeth eu hail ŵyr ar Hydref 29ain. Ganwyd Elis Cai i Dylan a Louise, Pentre'r Eglwys, yn frawd bach i Matthew Wyn.

Yr un yw ein dymuniadau i Colin a Nia Williams ar enedigaeth ŵyr bach arall. Ganwyd Osian Rhys i Morgan a Rosie ar Dachwedd 13eg yng Ngwaelod y Garth.

Merched y Tabernacl
Ar ôl cyfarfod yn Y Ganolfan yn unig am fisoedd i gael coffi a sgwrs oherwydd y pandemig, roedd yn braf cael mentro allan unwaith yn rhagor. Aeth nifer o'r aelodau i'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd i fwynhau datganiad ardderchog ar y fiola gan Timothy Ridout a'i gyfeilydd medrus Jayson Gillham. Roedd yn orig fach hyfryd a phawb wedi mwynhau.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 6ed bydd nifer dda o'r aelodau'n mynd lawr i Gartref Gofal, Heol Don yn yr Eglwys Newydd i ganu carolau gan fod Shelagh Griffiths, cyn aelod ffyddlon o'r capel a'r gymdeithas wedi ymgartrefu yno'n ddiweddar.

Y Twmiaid
Bu'r Twmiaid a'r Twmiaid bach yn brysur iawn yn creu torchau Nadolig a chrefftau amrywiol ar gyfer Ffair Nadolig y pentref yn ystod pythefnos gyntaf mis Tachwedd. Llongyfarchiadau gwresog iddynt am greu'r stondin mwyaf lliwgar yn Y Ganolfan.

Casgliadau'r Nadolig
Yn ôl ein harfer yn Y Tabernacl fe fyddwn yn ceisio dod ag ychydig o lawenydd y Nadolig i'r bobl hynny yn ein cymdeithas sy'n wynebu anawsterau a chaledi.

Byddwn yn casglu danteithion Nadolig a nwyddau hylendid i famau a phlant fydd yn treulio'r Nadolig mewn llochesi Cymorth i Ferched Cymru a phobl o bob oed heb gartref parhaol. Bydd casgliad ariannol hefyd i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl fydd yn treulio'r Nadolig mewn hosteli i'r digartref.

Bydd y Capel ar agor ar foreau Iau a Sadwrn rhwng 10 a 12 o'r gloch y bore i dderbyn rhoddion neu fe ellir cyfrannu ar fore Sul. Diolch i aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am drefnu'r gwaith yma.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Emlyn (Pens) Jones a'r teulu i gyd ar golli mam, nain a hen nain. Fe ddaeth Mrs Margaret Jones a'i diweddar ŵr i fyw yng Nghwrt y Faenol yn y Beddau er mwyn cael bod yn agos at y meibion, Emlyn (Pens) sy'n byw yn Nhonteg a David (Niwc) sy'n byw yng Nghilfynydd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Ar ôl yr oedfa fore Sul, Tachwedd 27ain, cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Capel. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan Edwyn Evans, cadeirydd y Bwrdd ac mi ddiolchodd yn gynnes am bob cefnogaeth a gweithgaredd o fewn yr eglwys. Cafwyd adroddiad manwl gan Arwyn Jones, y Trysorydd, ac mi apeliodd am gefnogaeth ariannol deilwng gan fod costau trydan a nwy yn mynd i godi i'r entrychion yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cyhoeddodd Gwilym Huws, yr Ysgrifennydd, enwau aelodau newydd y Bwrdd sef Elwyn Hughes, Aled Humphreys, Siân Jones, Non Morris a Beth Reynolds. Diolchwyd yn gynnes i'r pum aelod fydd yn gadael y Bwrdd sef Edwyn Evans, Eleri Jones, Geraint Wyn, Gwenfil Thomas a Nia Williams. Diolchodd Rowland Wynne ar ran yr aelodau i Edwyn Evans am ei waith clodwiw fel Cadeirydd y Bwrdd.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Rhagfyr
Rhagfyr 4ydd Y Parchedig Eirian Rees
Rhagfyr 11eg Y Parchedig Aled Edwards
Rhagfyr 18fed Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r Twmiaid
Rhagfyr 24ain Oedfa Noswyl y Nadolig am 5.30pm

Oedfaon mis Ionawr
Ionawr 1af Geraint Wyn Davies
Ionawr 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Ionawr 15fed Y Parchedig Denzil John
Ionawr 22ain Cynan Dafydd Llwyd o Tearfund
Ionawr 29ain Edwyn Evans

PONTYPRIDD

Gohebwyr y mis
Margaret a Dave Francis

Merched Y Wawr
Diolch i Mati Roberts am noson ddiddorol yng nghyfarfod Mis Tachwedd. Mae Mati wedi sefydlu cwmni newydd, Maticom, sy'n gwerthu gemwaith ac addurniadau cartref. Yn 2008 treuliodd Mati gyfnod yn nyrsio yn Ghana, ac o ganlyniad i'r profiadau erchyll a welodd o ran tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol, aeth hi a'i phartner busnes ati i adeiladu ysgolion i'r plant lleol. Mae'r arian o werthiant y nwyddau felly i gyd yn mynd tuag at sefydlu a chynnal ysgolion newydd yn Ghana. Mae hi bellach yn gweithio fel nyrs rhan amser, ynghyd â gwneud a gwerthu nwyddau lliwgar.

Diolch i bawb a ddaeth i'n cartref newydd Y Llofft yng Nghlwb y Bont. Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r lleoliad newydd!!

Rhaglen Rhagfyr ac Ionawr. Bydd y Gangen yn dathlu'r Nadolig Nos Iau, Rhagfyr 8fed am 7.30, bwffe ac adloniant gan yr aelodau. Yn mis Ionawr 2023 ein gwestai arbennig fydd Beti George. Croeso cynnes i aelodau o ganghennau eraill i ymuno â ni ar Nos Iau, Ionawr 12fed am 7.30.

Cwis Cenedlaethol Llongyfarchiadau i dîm y Gangen am ei llwyddiant yn y Cwis Cenedlaethol! Cyntaf yn y Rhanbarth, a thrydydd yn Genedlaethol. Aelodau'r tim buddugol oedd Delyth Davies, Gwerfyl Thomas, Menna Thomas a Jayne Rees.

Clwb Llyfrau
Mae criw da yn cwrdd yn y llyfrgell ym Mhontypridd bob trydydd bore Mercher yn y mis am 10.30. Croeso i aelodau newydd.

Profedigaeth
Yng Nghartref Gofal Parc Nest Castell Newydd Emlyn, bu farw tad Siân Ebbsworth, Graigwen. Roedd yn gyn-brifathro Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul cyn ymddeol. Estynwn ein cydymdeimlad â Sian a Mike yng Ngraigwen, a'r teulu yn Ffynnon Taf a Warwick.

Genedigaethau
Pob dymuniad da i Gwenno a Richard, Aberdâr ar enedigaeth Ania, chwaer fach newydd i Alffi Jac ac wyres i Delyth a Niwc, Cilfynydd.

Llongyfarchiadau i Carrie a Beca ar enedigaeth Talwyn, ŵyr cyntaf i Gerwyn a Bethan Caffery, Graigwen, a chefnder bach newydd i Ffion, Efail Isaf.

Siop yn ehangu
Braf yw nodi llwyddiant yr unig siop lyfrau annibynnol yn y dre wrth iddynt ehangu i'r hen siop drws nesa. Mae ganddynt stoc o lyfrau Cymraeg a Saesneg i oedoliom ac i blant erbyn hyn, ynghyd â dewis da o gardiau cyfarch Cymraeg.

Ymddeoliad
Pob dymuniad da i Bethan Williams, Tyfica Road sy'n rhoi'r gorau i ddysgu yn Ysgol Gymraeg Aberdâr ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yno.

Campus
Llongyfarchiadau i Bethan Ford, Graigwen ar lwyddo i gwblhau ei threiathlon cyntaf yng Nghaerdydd yn Mis Tachwedd. Mae Bethan yn dipyn o redwraig, ond gall nawr ychwanegu seiclo a nofio at ei doniau!

Rhedeg Marathon
Llongyfarchiadau i Sara Todd o Gaerdydd a'i ffrind, a lwyddodd i redeg dau farathon ar draws anialwch y Sahara dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Ymgyrch oedd hwn i godi arian i gronfa elusen cancr y prostad. Mae ei rhieni yng nghyfraith sef Barrie a Dorothy Todd yn hynod falch o'i hymdrechion. Os hoffech gyfrannu at yr elusen ewch i'r dudalen Just Givimg ar Weplyfr (Facebook) Sara Todd.

Menna Lewis fydd yng ngofal y golofn yn Mis Chwefror 2023. Cysylltwch â hi gyda'ch newyddion.

Gwylio Cwpan y Byd yn y Clwb

CLWB Y BONT AR AGOR – AC YN BRYSUR!

Roedd ail-agoriad hir ddisgwyliedig Clwb y Bont ym mis Tachwedd yn llwyddiant mawr gyda'r bariau yn llawn sŵn a miri unwaith eto.

Cafwyd cyd-ganu cymunedol dan arweiniad medrus Wil Morus Jones ar y nos Wener agoriadol, a gig wedi ei gwerthu allan gan y band poblogaidd The Navarones y noson ganlynol. Roedd y Clwb wedi ei benodi yn un o leoliadau Cwpan y Byd, a chafwyd nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud a'r pêl-droed, gyda'r Bar Bach yn orlawn i wylio holl gemau Cymru - er siom y canlyniadau.

Noson lwyddiannus dros ben oedd hwnnw i ddathlu'r ail-agor yn Gymraeg ar nos Sadwrn y 19eg o Dachwedd gyda'r canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys a Mari Mathias a'i band. Roedd y Stafell Gefn unwaith eto yn orlawn a safon y perfformiadau wrth fodd pawb.

Mae bar Clwb y Bont wedi agor fel 'ty -rhydd' yn gweini diodydd o fragdai lleol a chenedlaethol Cymraeg, ac mae'r Wrexham Lager yn sicr yn mynd i lawr yn dda!

Mae yna arlwy amrywiol o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer mis Rhagfyr, gyda darllediad o rifyn o Dalwrn y Beirdd ar nos Wener y 9fed, Noson Gomedi ar y nos Sadwrn canlynol, ymweliad gan y Fari Lwyd ar ddydd Sadwrn y 17eg a noson roc Nadoligaidd gyda'r hwyr. Mae'r Clwb Jazz wedi ei atgyfodi ar nosweithiau Iau gyda'r band poblogaidd Hot Club Gallois ar yr 8fed o Ragfyr a'r Reverend James Blues Band ar yr 22ain. Bydd Parti Nadolig y Clwb gyda carioci tymhorol yn cael ei gynnal ar nos Wener y 23ain - croeso cynnes i bawb.

Am yr holl wybodaeth am ddigwyddiadau amryfal Clwb y Bont, cysylltwch â'r wefan clwbybont.cymru neu ar y llwyfannau cymdeithasol @clwbybont

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Sharon Morgan, awdur ail gyfrol ei hunangofiant, *Actores a Mam*.

Beth yw eich gwaith?
Actores ac awdur.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Dwi erio'd wedi gwneud unrhyw waith arall. Dechreuais i actio yn syth o'r coleg yn 1970 ar ôl ennill gradd mewn hanes o Brifysgol De Cymru a Mynwy fel o'dd hi'n cael ei galw ar y pryd. Ro'dd teimlad nad oedd gyrfa fel actores yn ddewis call a sefydlog ac fe fyddai angen rhywbeth arna i i 'syrthio nôl arno.' Ond dwi wedi bod yn ddigon lwcus i beidio â gorfod gwneud hynny. Dechreuais i ysgrifennu ym 1994.

O ble rydych chi'n dod?
O Sir Gaerfyrddin. Fe ges i fy ngeni yng Nghlawddowen, lle sy ddim ond yn cynnwys tŷ a thŷ'r ysgol yn ymyl Brechfa yng ngogledd y shir, ond fe ges i fy magu yng Nglanyfferi a Llandyfaelog yn ne'r shir tu fas i Gaerfyrddin. Mae fy nheulu'n hanu o Ddyffryn Aman.

Ble rydych chi'n byw nawr?
Dwi'n byw yng Nghaerdydd ac wedi ymgartrefu yma ers 1982 ar ôl cyfnodau ym Mangor a Llundain.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Yn yr ysgol gynradd fy nhad o'dd y prifathro yn ysgol fach Llandyfaelog ac ro'dd hyn yn gallu bod yn rhyfedd weithiau. Es i'r Queen Elizabeth Grammar School for Girls, ysgol ramadeg y merched yng Nghaerfyrddin, ysgol academaidd iawn. Am fy mod i'n academaidd fe ges i addysg dda iawn ond do'dd dim pwyslais ar chwaraeon na drama nac unrhyw beth allgyrsiol ac ro'n i'n gwrthryfela yn aml yn erbyn cyfyngderau'r sefyllfa.

Pwy oedd, a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?
Fy magwraeth gafodd y dylanwad mwya. Ro'dd ein tŷ ni'n llawn llyfrau a'n rhieni'n bobl annibynnol eu meddyliau. Gwnaeth diddordeb fy mam mewn ffilmiau a dramâu fy ysbrydoli'n fawr.

Dylanwadodd ffrind ysgol, Siân Edwards, yn fawr arna i oherwydd ei chenedlaetholdeb ac ro'dd buddugoliaeth Gwynfor Evans yng Nghaerfyrddin, pan enillodd sedd gynta Plaid Cymru yn San Steffan ym 1966, yn bwysig achos fe gawsom ni, y criw ifanc oedd yn canfasio ar ei ran, y teimlad fod modd i ni newid y byd.

O ran actio, ro'dd Wilbert Lloyd Roberts a Beryl Williams yn ddylanwad mawr pan o'n i ar gynllun hyfforddi Cwmni Theatr Cymru.

Faint o her oedd bod yn fam ac actores?
Her anferth oherwydd natur fympwyol ac ysbeidiol y gwaith, yn ariannol, yn ymarferol ac yn emosiynol wrth orfod gadael y plant er mwyn gweithio o bryd i'w gilydd. Fe fues i'n lwcus i gael help fy mam ac yna nifer fawr o bobl eraill gefnogol.

Beth sy'n eich gwylltio?
Anghyfiawnder.

Beth oedd proses sgrifennu'r hunangofiant? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya? Wrth lwc, dwi wedi cadw dyddiaduron ers o'n i'n 13 oed ac felly ro'dd y digwyddiadau a'r teimladau ar y pryd wrth law. Dewis a didoli o'dd yn anodd, a hefyd yn yr ail gyfrol hon yn arbennig, gorfod ail-fyw rhai profiadau anodd. Ond mae'r gwrthwyneb yn wir, wrth gwrs, wrth fwynhau'r profiadau hapus.

Beth yw'r meini prawf wrth ddewis rhan?
Ar y cyfan, does dim dewis. Rhaid derbyn pob un er mwyn gwneud bywoliaeth. Ar ôl dweud hynny, pan fydd dewis rhwng dau, mae dyfnder a her y rhan yn siŵr o ennill.

Beth sy'n apelio fwya? Theatr, teledu neu radio. Pam?
Y cyfan. Mae pob un yn cynnig pleserau gwahanol er bod theatr ychydig ar y blaen oherwydd y cyfle i arbrofi wrth ymarfer am wythnosau yn ogystal â'r pleser o berfformio i gynulleidfa fyw.

Beth yw eich barn am stad y theatr a'r byd teledu yng Nghymru?
Mae'r theatr yn dechrau dod dros gyfnod Covid fuodd yn ergyd drom a dwi wedi mwynhau amryw o gynyrchiadau difyr yn ystod y flwyddyn, er mae angen llawer mwy o arian, yn enwedig er mwyn cael mwy o gynyrchiadau i deithio.

Mae'r ffaith fod S4C yn llwyddo i gynnal sianel gyfan am flwyddyn am yr un arian â dwy gyfres *The Crown* yn wyrthiol.

Pa newidiadau sydd eu hangen?
Mae angen datganoli darlledu.

Pwy yw eich hoff actor neu actores? Pam?
Vanessa Redgrave am ei phresenoldeb hudolus a'i safiadau gwleidyddol.

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i actor neu actores ifanc?
Gweithiwch yn galed. Peidiwch rhoi lan. Credwch yn eich hunan.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
Gweler uchod.

Beth oedd y llwyddiant mwya a'r siom fwya?
Mae llawer o rannau yn bwysig yn ystod fy ngyrfa i, Nora yn *Tŷ Dol* gan Ibsen, Mam yn *House of America*, Anest yn y gyfres *Anest* i S4C, Mary yn *Tair Chwaer* a Martha yn *Martha Jac a Sianco*, ac ro'dd ennill BAFTA am y ddwy olaf, yn ogystal ag am y ffilm *Resistance* yn braf iawn.

Ro'dd mynd i ffilmio *Torchwood* yn Warner Brothers yn Hollywood yn ddifyr dros ben ac mae ysgrifennu a pherfformio fy ngwaith fy hun wedi bod yn brofiad arbennig.

Ond y llwyddiant mawr yw llwyddo i fagu 'mhlant a chael gyrfa ar yr un pryd. Mae'r ddau erbyn hyn yn gweithio yn y cyfryngau, Steffan yn gwneud rhaglenni dogfen fel *Adam Price a Streic y Glowyr*, *Prif Weinidog Mewn Pandemig* a *Chwilio am Feibion Glyndwr*, a Saran yn actores fydd yn *Y Goleudy* ac *Yr Amgueddfa 2* cyn hir.

O ran siom, mae cael eich gwrthod wastad yn rhan o fywyd actor a rhaid dysgu byw gyda hyn.

Beth yw'r gwersi gafodd eu dysgu o ran gyrfa?
Wastod anelu at gael eich ymestyn a defnyddio pob achlysur posib i barhau i ddysgu. A dysgu sut i fyw gyda risg barhaus.

Beth sy ar y gweill?
Bydd sawl peth dwi wedi gweithio arnyn nhw'n ddiweddar yn ymddangos y flwyddyn nesa, *The Steel Town Murders* ar deledu, *The Sin Eater* ac *Y Sŵn* ar ffilm a *The Medicis* ar y radio. Bydd ail gyfres *Yr Amgueddfa* yn cael ei darlledu Ddydd San Steffan, ac mae Honno'n cyhoeddi tair o fy monologau, *Ede Hud*, *Holl Liwie'r Enfys* a *Trafaelu ar Y Trên Glas* y flwyddyn nesa hefyd.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd.
Cinio rhost.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Darllen.

Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800991088&tsid=3

***Actores a Mam: Hunangofiant Sharon Morgan*, Y Lolfa, £9.99**

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebwyr y mis:
Gwilym ac Eleri Huws

Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau

Roedd ein cyfarfod diwethaf brynhawn Mercher 16 Tachwedd yn Café 50 lle cawsom amser gwerth chweil yn dysgu sut i wneud torch Nadoligaidd.

Daeth Catherine Millard a'i merch atom i arddangos gwneud torch. Llwyddodd y ddwy i wneud i'r dasg edrych mor hawdd, a chynhyrchu torch fendigedig erbyn y diwedd. Roedd hi'n bleser pur eu gweld yn ymdrin â'r gwahanol blanhigion mor feistrolgar. Diolch i Catherine, sy'n berchen siop flodau 'Lili Wen' yn Nhreorci, am roi'r dorch orffenedig i'r gangen. Penderfynwyd, yn ei habsenoldeb, roi'r dorch yn anrheg i Eluned sydd yn asgwrn cefn y gangen. Mwynha, Eluned, a diolch i Catherine!

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn Café 50 bnawn Mercher 14 Rhagfyr lle bydd Glenys yn cadw trefn.

Priodas hapus iawn

Llongyfarchiadau mawr i Gerwyn White a Simone Hunt ar achlysur eu priodas ar 14 Tachwedd. Cafwyd diwrnod hyfryd iawn ar y Gŵyr, yn dathlu gyda theulu a ffrindiau. Dymunwn bob hapusrwydd iddyn nhw yn eu bywyd priodasol.

Colli Howard Evans

Cydymdeimlwn â Betsan a'r teulu ar farwolaeth Howard ym mis Tachwedd.

Ganed David Howard Evans ym 1941 yn ardal Pontarddulais i Harriet a Jack Evans. Roedd Howard yn frawd bach i Bryan a'r ddau yn cael eu nabod yn lleol fel Bronco Bach a Bronco Mawr. Dilynwyd gan ddwy chwaer Brenda a Marleen.

Rygbi oedd byd Howard ers yn ifanc iawn a dechreuodd ei yrfa'n chwarae gyda Pontarddulais.

Ennillodd ei Gap yn chwarae dros ei Ysgol yn 1960.

Wedi gadael Ysgol aeth i hyfforddi fel heddwas a fu'n gweithio yn ardal Aberdâr fel heddwas PC 1066. Yn ystod y cyfnod yma aeth i chwarae rygbi gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Prydain Fawr.

Wedi pum mlynedd fel heddwas aeth i hyfforddi fel athro yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin. Symudodd i Gaerdydd i weithio fel athro a dyna lle cyfarfu â Betsan Williams, athrawes ifanc oedd yn gweithio yn yr un Ysgol. Priododd y ddau ar ddiwrnod braf ym mis Gorffennaf 1973.

Ymgartrefodd y cwpwl yn ardal Y Rhath ac yn fuan iawn ganed ei merch cyntaf Hannah ac yna Ruth mewn dwy flynedd. Symudodd y teulu i Sully, ger Penarth. Roedd Howard erbyn hyn yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Gibbonsdown Y Bari ac yna'n Brifathro yn Ysgol Gynradd Llanulltud Fawr. Er iddo ddal ymlaen i chwarae rygbi ymunodd â Chwmni Dawns Werin Caerdydd lle bu'n perfformio mewn Eisteddfodau a theithiau yn cynnwys America, Rwsia ac Ewrop.

Ar ôl ymddeol yn gynnar aeth i weithio yn Sain Ffagan fel Gofalwr ac roedd yn mwynhau gyrru'r trên. Adnabyddwyd ef fel Ifans y Trên! Roedd yn aelod o'r Plough Singers yn yr Eglwys Newydd ac ymunodd ef a Betsan â Chôr Godre'r Garth. Hefyd roedd yn serennu fel Milwr Un ym Mhanto blynyddol Cwmni Drama Theatr Y Crwys.

Ym 2009 daeth newid byd eto pan glaniwyd ei wŷr Daniel ac yn fuan wedyn tair merch Mia, Rebecca ac Elise. Roedd Howard wrth ei fodd yn ei rôl newydd fel Taid.

Symudodd Howard a Betsan i Tonysguboriau mis Mai diwethaf i fod yn agos i'r merched a'u teuluoedd. Wedi brwydyr tair mlynedd a hanner gyda Cancr hunodd ar y 17eg o Dachwedd yn Y Bwthyn, Llantrisant gyda Betsan, Hannah a Ruth wrth ei ymyl.

"Hyd nes cawn ni eto gwrdd".

Profiad anhygoel

Ar 24 Hydref cynhaliwyd cystadleuaeth 'cic bocsio' ryngwladol yng nghastell Caerdydd. Bu Enfys White yn ddigon lwcus i fod yno ac i fod yn rhan o arddangosfa tîm WCKA Llantrisant. Roedd yn brofiad anhygoel iddi gael gweld a chwrdd â phobl o wahanol wledydd.

Gorau Chwarae Cyd Chwarae

Un o sgil effeithiau pwysicaf ymddangosiad Cymru yng Nghwpan y Byd yn Qatar oedd y gweithgareddau niferus i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gyfoes a chyffrous. Roedd penderfyniad Cymdeithas Pêl-droed Cymru (CPDC) i fabwysiadu 'Yma o hyd' fel cân swyddogol y tîm yn un ysbrydoledig, gan ddangos sut mae modd i'r iaith uno'r genedl. Hefyd, derbyniodd gweledigaeth y Mentrau Iaith i godi cyfres o furluniau o chwaraewyr unigol ymateb cadarnhaol wrth sicrhau presenoldeb gweledol i'r Gymraeg ar draws Cymru. Er enghraifft, tu allan i'r Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd roedd murlun o Gareth Bale ynghyd â geiriau arwyddair y tîm, sef *Gorau Chwarae Cyd Chwarae*. Gwelwyd yr un geiriau hefyd ar furlun o Harry Wilson yng Nghorwen a Connor Roberts yn Y Drenewydd.

Ond tybed faint sy'n ymwybodol o'r rhan allweddol a chwaraewyd gan Glwb Pêl-droed Pontyclun yn hanes mabwysiadu'r arwyddair hwn gan y Gymdeithas Bêl-droed yn yr 1950au? Er mai chwarae mewn cynghreiriau lleol fu ffawd y tîm oedd yn chwarae eu gemau cartref ar Barc Ivor ym Mrynsadler am dros gan mlynedd, roedd ymhlith y clybiau amatur cyntaf i dderbyn y statws o fod yn aelod o'r Gymdeithas genedlaethol. Gŵr ifanc o'r enw Thomas Edward Russell oedd ysgrifennydd Clwb PD Pontyclun ar y pryd, ac yn ddiweddarach daeth yn weinyddwr pêl-droed dylanwadol, yn gyntaf fel Ysgrifennydd Cymdeithas Pêl-droed De Cymru, ac yna fel Llywydd Cymdeithas Pêl-droed Cymru (CPDC). Yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd De Cymru, roedd yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol pan aed ati i gynllunio arfbais i ddathlu pen-blwydd CPDC yn 75 mlwydd oed - a dyna pryd y dewiswyd arwyddair CPD Pontyclun ers degawdau, sef 'Gorau Chwarae Cyd-chwarae', yn rhan o'r arfbais.

Ymddangosodd yr arfbais ar grysau tîm Cymru am y tro cyntaf mewn gêm i ddathlu'r achlysur yn erbyn tîm gweddill gwledydd Prydain yn1951. Ond er nad yw'r arwyddair bellach i'w weld ar fathodyn crysau Cymru, mae'n parhau'n amlwg iawn ar gyhoeddiadau a gwefan CPDC a bu'n ysbrydoliaeth i dimau Cymru – yn enwedig dros y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, nid yw clwb Pontyclun wedi plygu i ddilyn ffasiynau mwy cyfoes cynlluniau crysau pêl-droed, ac mae'r arwyddair yn parhau'n amlwg iawn ar fathodyn eu crys.

Côr Meibion Taf

Nos Wener 4 Tachwedd, cynhaliwyd, o'r diwedd, gyngerdd a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer y 13 Mawrth 2020. Fe gofiwch mai dyna pryd y daeth y pandemig i Gymru. Roedd Côr Meibion y Brythoniaid ar eu ffordd i gynnal noson yng nghwmni Côr Meibion Taf ar y nos Wener honno cyn canu yn Stadiwm y Principality cyn y gêm rygbi rhyngwladol rhwng Cymru a'r Alban y diwrnod canlynol. Gohiriwyd y rygbi, gohiriwyd y gyngerdd a throdd y Brythoniaid yn ôl am adref a hwythau eisoes wedi cyrraedd Llanidloes!

Hir yw pob aros ond dros ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach cafwyd noson gofiadwy yn Eglwys St John's Treganna. Yn dilyn cyfnod hesb o ran cyngherddau ac adloniant byw roedd yr eglwys dan ei sang.

Arweinyddion y corau meibion yw Steffan Jones a John Eifion ac ymunwyd â nhw ar y noson gan Ferched Plastaf dan arweiniad Caryl Ebenezer mewn rhaglen ddeniadol o gerddoriaeth boblogaidd a safonol.

Ynghyd ag eitemau unigol y tri chôr ymunodd y meibion â'i gilydd i ganu American Trilogy a chafwyd datganiad gwefreiddiol o O Gymru pan ymunodd y merched â'r dynion. (Mae manylion llawn y rhaglen ynghyd ag ambell lun a fideo i'w gweld ar wefan Côr Meibion Taf www.cormeibiontaf.cymru)

Mae Côr Meibion Taf yn mynd o nerth i nerth ers ailgydio o ddifrif ar ôl y pandemig. Mae nifer o gantorion newydd wedi ymuno â'r côr yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd gwahoddiad gan Undeb Rygbi Cymru i ganu ar y maes cyn y gêm yn erbyn Georgia fis diwethaf ac ym mis Chwefror byddwn yn mynd ar daith i'r Alban, gan berfformio ar Ynys Bute ac yng Nghaeredin dros benwythnos y gêm rygbi rhyngwladol.

Mae'r côr yn ymarfer yng Nghlwb Rygbi Llandaf ar Rodfa'r Gorllewin am 7:30 bob nos Sul. Mae'r ymarfer yn gorffen am 9:00 ond mae'r cymdeithasu yn parhau mewn awyrgylch cartrefol braf wedi hynny. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion pan gawn gyfle i atgoffa'n hunain o'r hen ffefrynnau a chael blas ar ddysgu darnau newydd.

Menter Caerdydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd o Weithgareddau
Gyda'r Nadolig yn agosáu, beth am ymuno â ni i ddathlu'r Ŵyl? Dyma ddetholiad o'r gweithgareddau sydd ymlaen dros yr wythnosau nesaf:

Sgwrs y Mis - nos Lun, 12 Rhagfyr, 7.30yh: Nesáu at y Nadolig
Dyma gyfle ichi anghofio am yr holl brysurdeb a'r paratoi am y tro, a mwynhau gwledd o gerddi tymhorol, hen a newydd, yng nghwmni'r Athro Christine James. Croeso i chi ddod â phaned a mins pei – neu'r ddau! – i'r sesiwn gyda chi.

Gweithdy Gwyddoniaeth – prynhawn Llun, 12 Rhagfyr yn Ysgol Pencae. Sesiwn Nadoligaidd i blant (bl. 1 i 6) yng nghwmni SparkLab Cymru. Mwy o fanylion ar ein gwefan!
Parti Nadolig i'r Teulu yng nghanolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro a Cymraeg i Blant. Dewch i fwynhau gweithdai celf a chrefft, i ganu carolau ac wrth gwrs, i weld Siôn Corn! Dydd Gwener, 16 Rhagfyr, 4.00-6.00yp.
Cyngerdd Gymunedol Nadoligaidd
Bore Llun, 19 Rhagfyr, 11.30, Canolfan Beulah, Rhiwbeina – yn rhad ac am ddim, diolch i gerddorion Live Music Now. Gwledd o gerddoriaeth tymhorol, a phaned, yng nghwmni Top Brass Trio.

Wedi hoe dros y Nadolig, bydd ein gweithgareddau poblogaidd yn dychwelyd ar ddechrau'r flwyddyn gydag ambell sesiwn newydd yn eu plith. Cynhelir y gweithgareddau isod ar Zoom:

Blwyddyn y Beirdd
Yn dilyn llwyddiant ei sesiynau'r llynedd, bydd Yr Athro Christine James yn dychwelyd gyda chwrs newydd yn y Flwyddyn Newydd. Y tro hwn, awn ar daith drwy'r tymhorau gan drafod cerddi amrywiol. Yn dechrau: Prynhawn Mawrth, 24 Ionawr, 2.00-3.00yp. £12 am 4 sesiwn.

Hanes Cymru
Yr Athro Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth fydd yn cynnal y cwrs nesaf yn y gyfres Hanes Cymru. Mudiadau protest yng Nghymru fydd yn dod dan sylw mewn cyfres o dair sesiwn sy'n dechrau nos Lun, 6 Chwefror am 7.30yh. £10 am 3 sesiwn.

Sgwrs y Mis
Edrychwn ymlaen at fwy o sgyrsiau difyr yn ystod 2023. Rhowch y dyddiadau ar y calendr!

Nos Lun, 16.01.23 – Yr Athro Rhys Jones: Pwy yw'r Cymry? A ble mae Cymru?
Nos Iau, 16.02.23 – Dr Brieg Powel: Wcráin: Blwyddyn Ymlaen
Nos Iau, 30.03.23 – Dr Marion Loeffler: Penodau tywyll yn hanes Y Waun Ddyfal a Mynydd Bychan
Nos Lun, 24.04.22 – Jane Aaron: Cranogwen
Nos Iau, 25.05.23 - Yr Athro Mari Jones: Pam Cadw Ieithoedd Bach yn Fyw?
Nos Lun, 26.06.23 - Yr Athro Bill Jones: 'Rhyw garchar rhyfeddol yw'r llongau ymfudol': Profiadau mordeithiol mudwyr o Gymru yn y 19eg ganrif

Sesiynau i deuluoedd a phlant
Bydd sesiynau Amser Stori, Deffro'r Synhwyrau a Bygi Heini/Heini Gyda'm Babi yn ail-ddechrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ym mis Ionawr. Ac i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, byddwn yn cynnal Gweithdy Coginio i blant (bl. 2 i 8), ar ddydd Sadwrn, 21 Ionawr yn neuadd Eglwys St Peters.
Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd/
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Croeso i'n byd Osian Rhys!
Hyfryd cael rhannu'r newyddion da - bod Morgan a Rosie wedi cael bachgen bach ar y 13eg o Dachwedd! Ei enw yw Osian Rhys - ac mae pawb wrth eu bodd! Llongyfarchiadau eich dau a phob bendith ar eich aelwyd yng Ngwaelod y Garth.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hawys a'r plantos ar golli Tad a Thad-cu arbennig ddechrau mis Tachwedd. Roedd Gavin Thomas yn ŵr bonheddig o'r iawn ryw; yn boblogaidd yn y pentref ac yn weithgar o fewn nifer o gylchoedd lleol, ond yn bennaf oll yn graig i'w deulu. Cynhaliwyd yr angladd ddechrau Rhagfyr a gobeithiwn rannu 'chydig o'r teyrngedau yn y rhifyn nesa.

Croeso - ond i bentref Capel Llanillteyrn!
Yn hwyr - yn ôl f'arfer - ond mae'r croeso'n dwymgalon! Symudodd Eilir Owen Griffiths, Leah, Aron a Gwenni i fyw i'w cartref newydd ddechrau'r haf a braf yw eu cael yn rhan o'r gymdeithas hon. O'r brifddinas y daw Leah, tra bo Eilir wedi ei eni a'i fagu yn y gogledd - yn fab y Mans. Gwyddom oll am allu cerddorol rhagorol Eilir - yn arweinydd Côr llwyddiannus iawn CF1; yn gyfansoddwr; yn gyfarwyddwr cerdd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen tan yn ddiweddar, ac ar hyn o bryd yn ddarlithydd cerdd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae'r ddau yn weithgar yng nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Caffaeliad go iawn i'r ardal! Croeso!

HAPUS WRTH EI HUN MEWN BREUDDWYD ROC A RÔL?

Cleif Harpwood sy'n diosg yr haenau i gyd mewn hunangofiant ar drothwy oed yr addewid

"'Ry'n ni'n meddwl dechre grŵp," medde Iestyn (Garlick) wrtha i un diwrnod rhwng darlitho'dd... "Pam lai?" medde fi, a dyma ddechre ar 'y mherthynas i â'r byd adloniant Cymraeg."

Felly mae Cleif Harpwood yn ei dweud hi, ac mae ei hunangofiant, *Breuddwyd Roc a Rôl?* (Y Lolfa) yn dweud llawer mwy hefyd. Mae'n rhyfedd sut mae moment mor ymddangosiadol fach yn gallu dal cymaint o ystyr wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, oherwydd roedd y foment hon yn foment fawr mewn gwirionedd. Dyma ysbardun gyrfa'r canwr a'r perfformiwr gwalltog, ac mae'n dal i ganu a pherfformio gyda'r un angerdd digymar hyd heddiw. Cleif Harpwood – yn aelod o fand *Ac Eraill*, yn brif leisydd i fand *Edward H. Dafis*, ac yn beth wmbredd mwy hefyd. Cawn yma flas ar y rhan a chwaraeodd ef wrth fynd yn groes i'r graen ac arloesi ar y sîn roc, a chawn fewnwelediad ar yr ochr chwerw o'i fywyd a'i yrfa, sy'n profi na fu popeth yn fêl i gyd iddo.

Meddai'r awdur:
'Do, fe gawson ni lot fawr o hwyl wrth deithio Cymru ac mae'r gyfrol yn adrodd ambell stori am y giamocs a'r direidi oedd yn rhan o'r profiad o fod mewn band. Mae hefyd yn ymdrin â'r berthynas arbennig oedd yn bodoli rhwng y pump aelod, mi ro'dd *Edward H* yn frawdoliaeth. Y tristwch yw bod *pundits* y sîn roc heddiw yn diystyru'r cyfnod hwn yn llwyr gan mai'r 1980au yn eu tyb nhw oedd dechreuad y byd roc Cymraeg.'

Tu hwnt i hynny, gwelwn fod bro ei febyd wedi bod yn llinyn arian gydol ei fywyd. Meddai: 'Cefais fy magu yn Afan Walia, tiriogaeth Arglwyddi Cymreig dyffryn Afan. Rwy'n teimlo bod ardaloedd sy'n bennaf ddi-Gymraeg fel Port Talbot wedi'u dilorni gan lawer o bobl dros y blynyddoedd, ond rwy'n gobeithio bydd y gyfrol hon yn amlygu'r diwylliant Cymraeg cyfoethog a fu yno dros y canrifoedd.' Ond wrth gwrs, caiff y lleddf le i anadlu yn y llyfr hwn hefyd, wrth i'r awdur ddweud iddo ddioddef o iselder o ganlyniad i sefyllfa heriol. Meddai: 'Mae'r gyfrol yn adrodd cyfnod yn f'ieuenctid pan oedd 'na bwysau mawr arnaf gan un garfan o'r teulu i ymroi at



fath o grêd nad oeddwn am ei harddel. Fe heuwyd had ynof a eginodd deimlad o euogrwydd gormesol, a dyna dwi'n meddwl oedd gwraidd y cyflwr. Roedd prysurdeb bywyd yn cadw'r felan draw, ond ro'dd teulu a chydnebydd yn gwybod mod i'n gallu bod yn berson dwys ac oriog.'

Ond pam nawr? A pham cyhoeddi? Mae gan yr awdur ateb i hynny. Meddai: 'Yn bennaf oherwydd mod i'n dathlu fy mhen-blwydd yn 70 oed yn 2023, a roeddwn yn teimlo, fel un sydd wedi cael y fraint o fyw bywyd digon amrywiol a lliwgar, llawer ohono yn llygaid y cyhoedd, bod 'na agwedde eraill o 'mywyd yr hoffwn eu rhannu – y llon a'r lleddf. [...] Rwy'n gobeithio bydd y gyfrol wrth fodd y darllenydd, pwy bynnag y bo, ac yn ysgogiad i'r bobol hynny, fel fi, o'dd unwaith ar yr ymylon ond a ddarganfu mor werthfawr yw bod yn Gymro neu'n Gymraes.'

Mae Cleif Harpwood yn ganwr ac yn gyfansoddwr adnabyddus. Roedd yn aelod o fandiau Ac Eraill *ac* Injaroc *ac yn brif leisydd y band arloesol* Edward H. Dafis. *Fe dreuliodd flynyddoedd yn gweithio fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr teledu ar nifer fawr o wahanol raglenni i'r BBC, ITV, CH4, S4C a'r sector annibynnol. Yn wreiddiol mae'n 'fachgen o 'Brafan' ac fe symudodd yn ôl i ardal ei febyd yn 2006 ac mae bellach yn byw ar Fynydd-y-Gaer, Baglan. Yn ystod ei yrfa fe fu'n byw yng Nghaerfyrddin, de Ceredigion, Caerdydd Pontypridd a Thalyllychau. Mae'n bwriadu symud 'Tua'r gorllewin' unwaith yn rhagor cyn hir.*

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Rhagfyr 2022:
4 Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (5:00 p.m.)
11 Rhagfyr – Oedfa mewn Cartref Henoed (i'w gadarnhau)
Oedfa 9 Llith a Charol (5:00 p.m.)
18 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
25 Rhagfyr – Oedfa dydd Nadolig (10:00 a.m.)
Mis Ionawr 2023:
1 Ionawr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8 Ionawr – Oedfa dan ofal Emlyn Davies
15 Ionawr – Oedfa Blygain (5:00 p.m.)
22 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
29 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

---oooOOOooo---

Gan mai dyma'r rhifyn o Tafod Elái fydd yn ein harwain at y Nadolig a'r flwyddyn newydd, mae'n siŵr ei fod yn briodol fy mod yn troi fy ngolygon at hynny.

Er o gofio, mae dydd Nadolig llai na chwe wythnos i ffwrdd, a dyletswyddau a threfniadau lu i'w cwblhau cyn y diwrnod mawr - yn gardiau, anrhegion, bwydydd, coeden, addurniadau, ymweld â theulu ac yn y blaen, heb son am geisio rhoi trefn unwaith eto eleni ar wasanaeth bore'r Nadolig yn y capel.

Ond yn ddistaw bach, mae'n siwr bod y rhelyw ohonom yn cael pleser a mwynhad o'r holl waith paratoi, ac yn ymhyfrydu yn yr ymateb - y plant yn agor eu hanrhegion, teulu a ffrindiau o gwmpas y bwrdd yn rhannu'r twrci a'r trimins, y gynulleidfa niferus yn gadael y capel wedi eu gwefreiddio gan fersiwn wahanol eto o'r Ddrama Nadolig!

Ond fe wyddom hefyd fod eraill yn ein cymdeithas yn gallu bod yn unig ar adegau fel hyn, yn teimlo colled cymar, yn ei chael yn anodd cadw dau ben llinyn ynghyd, ac yn benodol y gaeaf yma, yn sgil y cynnydd mewn costau byw ac ynni, yn gorfod cadw golwg fanylach na'r arfer ar bob ceiniog o'u heiddo.

Gwyddom fod yr elusennau rheiny sydd yn ceisio lliniaru peth ar ofidiau rhai o'n mysg yn gwneud eu gorau mewn hinsawdd llai na ffafriol y dwthwn hwn. Tra gallwn, fe ddylem ni sydd â'r gallu i wneud, estyn ein llaw i'n pocedi er parhad eu gwaith yn y gymdeithas.

A dwi'n siwr na fedrwch chi, fel fi, ddim anwybyddu'r hyn sy'n digwydd i eraill ymhob rhan o'r byd, lle mae rhyfel ac anwadalwch cymdeithas am eu cyd-ddyn yn creu ofn, newyn a difodiant ar raddfa eang, a'r difaterwch hwnnw wedyn yn rhannu teuluoedd a chreu ffoaduriaid o filiynau ohonynt.

Ac yn ddyddiol ers y 24ain o Chwefror eleni, mae gwlad a phobl yr Wcráin wedi bod yn ein meddyliau a'n gweddïau ers i'r Arlywydd Putin o Rwsia anfon ei filwyr a'i daflegrau er hawlio'r wlad yn rhan o'i ymerodraeth unwaith yn rhagor.

A ydych wedi meddwl o gwbl sut Nadolig fydd hi yno eleni tybed?

Yn ôl y gwefannau gwybodaeth, nid ydy dathliadau'r Nadolig traddodiadol yn cychwyn tan noswyl Nadolig, a gan eu bod yn dilyn calendr Iŵl (Julian), ar y 6ed o Ionawr y bydd hynny. Bydd y dathliadau yn parhau hyd at y 19eg o Ionawr, sef dydd gŵyl Ystwyll [*Yordan* yn iaith Wcrain]

Ers 2017, er anghydweld rhwng y carfannau ffydd [yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol a'r Eglwys Gatholig Roegaidd Wcrain] cydnabu llywodraeth y wlad y byddai Rhagfyr y 25ain, sef dydd Nadolig y calendr Gregori, yn ŵyl gydnabyddedig yn Wcráin.

(Cyn y Nadolig mae disgwyl i'r trigolion fod wedi ymprydio am gyfnod o 40 diwrnod, er mwyn glanhau'r corff a'r enaid! [ni chaniateir bwyta cig, wyau, caws na chynnyrch llaeth yn ystod y cyfnod ympryd]).

Gelwir y noson cyn y Nadolig yn *Sviatvechir* (y Noson Sanctaidd). Bryd hynny y bydd y cartref a'r bwrdd bwyd yn cael ei addurno gydag addurniadau symbolaidd - gan gynnwys ysgub o wenith o gynhaeaf cyntaf neu olaf yr hydref, wedi ei chlymu a rhuban lliwgar (*didukh),* sy'n cynrychioli dyhead y teulu am gynhaeaf ffrwythlon eto. *Credir bod "*ysbryd y cyndeidiau" yn trigo yn y *didukh,* ac y bydd eu heneidiau i gyd yn ymuno i fendithio'r teulu presennol.

Caiff ei chadw yn y tŷ hyd at *Masnytsia,* tymor y Grawys, pryd y bydd yn cael ei llosgi fel cydnabyddiaeth o ddiwedd y gaeaf.

('Rydym i gyd wedi dysgu cryn dipyn am bwysigrwydd Wcráin a'i gwenith i'r byd cyfan ers Chwefror diwethaf!)

Bydd bwrdd y wledd ar y noson yma wedi ei orchuddio a dau liain bwrdd, un ar gyfer teulu'r gorffennol, a'r llall ar gyfer y teulu presennol - ac fe wasgerir ychydig o wellt oddi tan y bwrdd ac o dan y llieiniau yn adlais o'r preseb ym Methlehem.

Bydd un lle gwag o gwmpas y bwrdd ar gyfer aelodau'r teulu sydd wedi marw, oherwydd y gred y daw eu heneidiau 'nol ar gyfer y dathliadau, a bwyta bwyd yn eu plith.

(Yn sgil y rhyfela fe amlygir y llefydd gwag o gwmpas byrddau Wcráin eleni yn ddi-os!)

Ni fyddant yn dechrau bwyta tan y bydd y plant yn gweld y seren gyntaf i ddisgleirio yn yr awyr i gyfeiriad y dwyrain.

Wedi'r holl baratoi, bydd y tad yn cynnig darn o fara (sydd eisoes wedi ei fendithio yn yr eglwys) wedi ei drochi mewn mêl i bob aelod o'r teulu, ac yna bydd yn eu harwain mewn gweddi. Bydd yn cyfarch pawb wedyn gyda'r geiriau "*Khrystos Razhdaietsia*" – ganed Crist.

Wedyn bydd y teulu'n swpera, ac fe ddarperir deuddeg cwrs (yn cynrychioli'r 12 disgybl) ar eu cyfer - ac ni fydd yr un cwrs yn cynnwys cig, llaeth nag wyau!

Kutia - pwdin grawn melys (yn cynnwys gwenith, barlys, hadau pabi, cnau, mêl a neithdar), fydd yn cael ei weni gyntaf fel arfer, a dyma'r unig dro yn y flwyddyn y bydd hyn yn cael ei gynnig ar y fwydlen. Bydd gweddillion y pwdin yn cael ei adael ar y bwrdd er mwyn i eneidiau'r cyndadau hefyd gael blasu'r wledd!

I ddilyn bydd Cawl a Rholiau Bresych, Picls, Borscht, Pastai, Stiw Llysiau, Gwenith yr Hydd, Twmplenni a Finegret. A chaiff y cyfan ei olchi i lawr gyda chwpaned o Uzvar ("Diod Duw") – wedi ei wneud o ddeuddeg ffrwyth gwahanol, gan gynnwys ceirios sych, afalau, gellyg a bricyll.

Wedi swpera bydd y teulu yn canu carolau (*koliadky*), gan ddilyn patrwm cyffelyb i ni wrth fynd o ddrws i ddrws yn y gymuned a chasglu rhoddion i elusen.

A stori Nadolig o Wcráin i gloi – stori'r "Pry Cop a'r Goeden Nadolig":-

"*'Roedd gwraig weddw yn byw mewn hen gwt bychan gyda'i phlant. Tu allan i'r cwt tyfai coeden binwydd dal. Syrthiodd côn o'r goeden a dechreuodd dyfu o'r pridd.*

'Roedd y plant wrth eu boddau oherwydd byddai ganddynt goeden Nadolig o'r diwedd, a buont yn ei gwarchod a gofalu amdani nes iddi dyfu'n ddigon mawr i'w chludo i mewn i'w cartref.

Ond gan fod y teulu yn dlawd, nid oedd ganddynt unrhyw fodd o addurno'r goeden Nadolig gydag addurniadau cain fel teuluoedd eraill.

Noswyliodd pawb o'r teulu ar noswyl Nadolig yn gwybod y byddent yn codi'r bore wedyn i gwmni coeden ddiaddurn.

Ond fe glywodd y pryfaid cop oedd yn y cwt y plant yn wylo'n hidl am hyn, a phenderfynasant sicrhau na fyddai'r goeden yn ddiaddurn y bore canlynol.

Buont wrthi trwy'r nos yn gweu patrymau o we sidan dros frigau'r goeden i gyd.

Pan ddeffrodd y plant a gweld hyn, 'roeddent ar ben eu digon, a galwasant ar eu mam i ddod i olwg y goeden- "Mae mor hyfryd" meddent wrthi. Fe safodd hithau ger y goeden mewn rhyfeddod.

Agorodd un o'r plant y ffenest, a gadael i belydrau'r haul sleifio ar hyd llawr y cwt, hyd nes cyrraedd brigau'r goeden. A dyna olygfa fendigedig oedd hi wedyn wrth i'r we pry cop ymysgwyd yn lliwiau aur ac arian o flaen eu llygaid, ar goeden drwyddi draw yn disgleirio.

Ni fu i'r wraig weddw deimlo'n dlawd fyth wedyn, a bu'n ddiolchgar am yr holl gyfoeth a ddaeth i'w rhan eisoes."

A dyna pam fod pobl Wcráin yn cynnwys addurn ar ffurf gwe pry cop ar eu coeden Nadolig hyd y dydd heddiw.

--oooOOOooo---

Nadolig Llawen i bobl Bethlehem, Gwaelod-y-garth, pobl Wcráin, a phobl y byd i gyd!

Ysgol Pont-Siôn-Norton

Hwyl Fawr Luke!
Rydym ni i gyd yn drist iawn wrth ffarwelio gyda Mr Sampson ar ôl 13 mlynedd yn rhan o deulu PSN. Bydd colled enfawr ar dy ôl gyda'r TGCh, Clwb Perfformio a Disgo DJ Sampson. Pob lwc i ti yn dy swydd newydd a chofia ddod nôl i'n gweld.

Diolch
Diolch yn fawr iawn i Ffrindiau PSN am y calendrau adfent. Mae gan bob disgybl un ac maent yn gyffrous iawn i'w agor bob dydd.

Teithio nôl mewn amser
Fel rhan o'r thema Amser Maith yn ôl, cafodd blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ddiwrnod Oes Fictoria yn yr ysgol. Roedd yn brofiad gwych ac fe wnaeth pawb fwynhau - ond roeddynt i gyd yn hapus eu bod yn byw yn 2022 yn y diwedd!

Y Wal Goch
Er gwaetha'r canlyniad, cafodd y disgyblion a'r staff ddiwrnod da wrth wisgo coch a gwylio gem bêl-droed Cymru yn yr ysgol. Gwell lwc y tro nesaf!

Clwb Gwyddoniaeth
Diolch i ExperiMENTALscience am y clwb Gwyddoniaeth. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn ymchwilio pob wythnos.

Aur!!!!!
Llongyfarchiadau i'r Cymry Cwl a holl ddisgyblion a staff yr ysgol ar lwyddo i ennill gwobr AUR Y Siarter Iaith. Rydym ni i gyd yn teimlo'n falch iawn.

Rygbi
Llongyfarchiadau i'r tim rygbi ar eu perfformiad yn y gystadleuaeth diweddar. Maent yn edrych ymlaen at eu gem nesaf yn barod!

Ysgol Dolau

Jambori Cwpan Byd yr Urdd

Bu'r Ysgol gyfan yn dathlu Jambori Cwpan Byd yr Urdd gan ganu a dawnsio!

Dosbarth 2 yn mwynhau

Sul y Cofio
Bu Zak yn gosod torch pabi coch Ysgol Dolau i lawr ar bwys y Cofeb Rhyfel yn Llanharan.

Sillafu
Spelling Bee (Saesneg) yn lwyddiant mawr! Ymdrech arbennig gan bawb. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ... Joshua Bunston a Laura Khalid.

Trip Bws Mini
Aeth Blwyddyn 1 a 2 ar drip bws mini er mwyn edrych a thynnu yr olygfa naturiol ym Mrynna - bydd y plant yn defnyddio'r gwaith yma fel ysbrydoliaeth i'w gwaith colaj.

Rygbi 7 Bob Ochr
Llongyfarchiadau i'n tîm rygbi a gyrhaeddodd rownd derfynol twrnamaint Rygbi 7 Bob Ochr Pontypridd!

Cwpan y Byd Dolau
Bu timoedd pêl-droed Cyfnod Allweddol 2 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd! Lot o hwyl a sbri! Enillodd Denmarc!

Y Trip Bws Mini



Y Mab Darogan - Cwmni Theatr Maldwyn
Yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, dydd Sadwrn, Ebrill 29ain 2023
Tocynnau ar gael yn barod gan Neuadd Dewi Sant - yn mynd yn gyflym yn ôl yr hanes.
Neuadd Dewi Sant
neuadddewisantcaerdydd.co.uk

BRETHYN GWLAD

gan Eirwyn George



Cyfrol o gerddi diweddar y Prifardd Eirwyn George yn dilyn Cân yr Oerwynt 2009. Casgliad o waith bardd gwlad sydd ganddo yn bennaf y tro hwn. Cerddi yn ymwneud â phobol a digwyddiadau ei filltir sgwâr. Cerddi syml, uniongyrchol eu mynegiant, y gellir eu deall a'u gwerthfawrogi ar un darlleniad. Mae yma atodiad o ddarnau o ryddiaith hefyd. Erthyglau ac ysgrifau sydd naill ai yn trafod barddoniaeth neu yn tywys y darllenydd i grwydro rhai o ardaloedd cefn gwlad yr awdur yn ei gynefin. Cyfarfod â rhai cymeriadau unigryw! Barddoniaeth a rhyddiaith wedi eu cyfuno a'u cyd-blethu.

Brodor o odre'r Preselau yw Eirwyn George. Bardd y Goron yn y Genedlaethol ddwywaith ac awdur nifer o gyfrolau barddoniaeth a rhyddiaith. Mae'n briod â Maureen ac yn byw ym mhentre Maenclochog.

Pris y llyfyr yw £7.50 yn y siopau, neu £10 drwy'r post wrth Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog, Clunderwen. SA66 7LB. Bydd elw'r gwerthiant yn mynd i gronfa Cymdeithas Waldo. Sieciau yn daladwy i 'Cymdeithas Waldo'.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Ieuenctid Y Pentref yn disgleirio
Llongyfarchiadau i Esmay a Verity Walters ynghyd a'u partneriaid Eve a Tegan ym Mhencampwriaethau Dawns Genedlaethol Prydain Fawr yng Ngerddi'r Gaeaf Blackpool. Canlyniadau rhagorol Esmay ac Eve pencampwyr dawns Lladin dan 14 oed ac 16 oed (Esmay yn 12 ac Eve yn 11).

Hefyd Verity a Tegan yn bencampwyr dawns Lladin a Ballroom dan 10 oed a thrydydd dan 12 oed (y ddwy yn 8 oed).

Pencampwr Jiwdo
Dechreuodd Kylan Aylward (17 oed) ei daith jiwdo yn 2017 ac erbyn 2018 enillodd ei deitl cyntaf sef pencampwr ieuenctid Cymru ac mae wedi amddiffyn hon yn llwyddiannus pob blwyddyn. Eleni bu hefyd yn bencampwr oedolion Cymru dan 66k. Derbyniodd Kylan yr anrhydedd o fod yn gapten Tîm Jiwdo Cymru yng nghystadleuaeth yn Walsall

yn ddiweddar. Mae Kylan wedi cynrychioli Prydain Fawr ym Mhencampwriaeth Ewrop yn Porec. Uchelgais Kylan yw cynrychioli tîm Prydain Fawr yn y Gemau Ieuenctid Olympaidd yn 2023. Mae Kylan yn ymarfer gydag Academi'r Dreigiau yn Aberdâr ac yn ddiolchgar am yr hyfforddiant gan y prif hyfforddwr Stephen Abberley.

Hefyd enillodd Tyla Williams dau deitl Pencampwr y Byd yng nghystadlaethau Paffio Cic y WKU yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Cyngor Cymuned
Ddydd Mercher 23 Tachwedd roedd yn fraint ac anrhydedd croesawu'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, ynghyd â gwahoddedigion eraill yn cynnwys yr Aelod Seneddol Huw Irranca Davies, cynrychiolwyr Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf a Phenybont a'r Ogwr, a'r Gwasanaethau Cyhoeddus i seremoni agoriadol mainc coffa. Mae'r fainc er cof am y rhai a gollodd eu bywydau yn ystod Pandemig 2021/22 a'r ffordd ddaeth pobl y pentref at ei gilydd mewn cefnogaeth. Yn anffodus nid oedd y tywydd yn ffafriol ond fe safodd y Prif Weinidog yn gadarn er mwyn talu teyrnged i'r achlysur arbennig hon ac fe fendithiwyd

Y Cwmni Bach

Yn ystod y misoedd diwethaf mae gwefan yr Undeb (www.annibynwyr.org) wedi ei gweddnewid yn fawr o ran ei diwyg a'i chynnwys. Ychwanegwyd adrannau llawn gwybodaeth werthfawr am ymgyrchoedd a gweithgareddau'r Undeb ac am eglwysi unigol. Un gyfres sydd eisoes wedi hen ennill ei phlwyf yw'r portreadau misol o eglwysi ledled Cymru. Y gyntaf yn y gyfres oedd y Tabernacl, Pen-y-bont, a'r mis hwn Bethlehem, Gwaelod-y-garth oedd yn derbyn sylw.

Hefyd ym mis Tachwedd lansiwyd y cyntaf o bodlediadau misol ar y wefan, sef *Y Cwmni Bach*, lle ceir sgwrs rhwng dau am y byd a'i bethau. Gwestai cyntaf Elinor Wyn Reynolds oedd Emlyn Davies. Wrth wylio'r podlediad cewch wybod am ddylanwad ardal chwarelyddol Llanberis, ei fro enedigol, ac unigolion megis ei weinidog y Parchedig Meirion Lloyd Davies, ar ei fyd olwg a'i ddaliadau cryf. Mae'n rhannu rhai o'i brofiadau yn ystod ei yrfa amrywiol a llwyddiannus ym myd y cyfryngau. Ond mae'r sgwrs hefyd yn cynnwys hanesion ysgafnach megis yr esboniad am y rhes hyd braich o lysenwau a fathwyd am ei gar cyntaf! Bydd y podlediad hwn ar gael ar *Apple* a *Spotify* yn fuan.

y fainc gan Y Parchedig Rachel Wheeler. Darparwyd lluniaeth gan y Ganolfan Dydd wedi'r seremoni.

Dydd Gwener 25 Tachwedd cynhaliwyd adloniant te prynhawn yng nghanolfan yr henoed. Bu dros 50 yn cael hwyl a sbri gyda Brian Thomas a Sarah Berbillion. Diolch i Café CF40 am y bwffe hyfryd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Cwpan y Byd Pêl-droed
Mae plant yr ysgol wedi bod yn mwynhau dysgu am y gwahanol wledydd sydd yn cystadlu yng Nghwpan y Byd eleni ac wedi bod yn cymryd rhan mewn pob math o weithgaredd yn ymwneud â phêl-droed a'r bencampwriaeth. Cafodd y plant gyfle hefyd i wisgo coch i gefnogi tîm Cymru ar gyfer y gêm yn erbyn Iran. Doedd canlyniad y gêm ddim yn ddelfrydol, ond cafodd y plant hwyl wrth wylio'r gêm a gwneud gweithgareddau hwyliog yn ystod y dydd.

Campau Chwaraeon
Mae llawer o blant wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tu allan i'r ysgol yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Neve am ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth ddawnsio. Y gamp oedd dawnsio'r Cha Cha gyda phartner ac fe gystadlodd Neve yn erbyn 7 cwpl arall. Da iawn ti Neve!

Bu Harri yn brysur yn chwarae pêl-droed gydag Academi Dinas Caerdydd. Enillodd wobr Cwpan Seren y Diwrnod gan yr Academi ar ôl iddo sgorio 8 gôl yn erbyn tîm o dan 9 oed, felly bechgyn dwy flynedd yn hŷn nag e o Academi Britton Ferry. Roedd hyn ar ôl iddo chwarae gêm gyda tîm ei oedran ei hunan ac yna chwarae gêm arall yn erbyn y bechgyn o dan 9 oed. Gwych Harri!

At fyd seiclo nesaf, a da iawn Lois am ddod yn drydydd mewn Cystadleuaeth "Cyclocross". Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu erioed, felly roedd hi ar ben ei digon am wneud mor dda!
Llongyfarchiadau Lois a dal ati!

Gwibdaith i Gastell Caerdydd
Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 eu hymweliad â Chastell Caerdydd yn ddiweddar. Gwelon nhw nifer o ystafelloedd y castell a dysgu am hanes y teulu Biwt. Cafon nhw hefyd lawer o hwyl wrth ddysgu am fywyd marchogion dros y canrifoedd, gan edrych ar wisgoedd ac arfau'r marchogion. Roedd y plant hefyd wrth eu bodd wrth edrych ar arfbais ambell deulu o'r gorffennol sydd yn edrych yn debyg iawn i'r rhai ar logo ein hysgol ni!

Stadiwm y Principality
Braint ac anrhydedd oedd cael gwybod bod plant hŷn côr yr ysgol wedi ennill cystadleuaeth i ganu ar y cae yn ystod hanner amser gêm Cymru yn erbyn yr Ariannin yn ddiweddar. Cystadlodd 90 o ysgolion o bob cwr o Gymru a dewiswyd 4 ysgol i berfformio yn ystod y pedwar gêm rygbi diweddar. Canodd ein plant ni "Sosban Fach" a chafwyd cymeradwyaeth arbennig gan y dorf ar ôl eu perfformiad. Roedd hi'n brofiad a hanner, a hyd yn oed yn well pan enillodd Cymru'r gêm! Diwrnod bythgofiadwy i'r plant.

Ysgol Creigiau

Disgo Calan Gaeaf
Nos Iau cyn hanner tymor trefnodd Cyfeillion yr Ysgol ddisgo Calan Gaeaf yn neuadd yr ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang gyda gwrachod, sgerbydau a phob math o greaduriaid brawychus eraill! Roedd pawb wrth eu boddau. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled yn trefnu'r disgo ac am godi £759.08 - ardderchog! Hoffai aelodau'r pwyllgor ddiolch i'n holl deuluoedd am eu cefnogaeth. Eleni un o amcanion y Cyfeillion yw codi arian ar gyfer offer Addysg Gorfforol newydd ar gyfer neuadd yr ysgol.

Casgliad y Cynhaeaf
Eleni buon yn casglu bwydydd ar gyfer Pantri Dusty Forge, elusen yn Nhreláí a Chaerau. Bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn brysur yn didoli'r bwydydd cyn iddynt gael eu casglu a'u rhannu. Diolch i'n teuluoedd am eu cyfraniadau hael a fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau llawer.

Jambori'r Urdd - Cwpan y Byd
Ar y 10fed o Dachwedd fe ymunon ni â 230,000 o blant eraill i gymryd rhan yn Jamborí'r Urdd i ddangos ein cefnogaeth i chwaraewyr pêl-droed Cymru a oedd yn mynd i Gwpan y Byd FIFA 2022. Mwynheuodd disgyblion o'r Feithrinfa i Flwyddyn 6 ganu a dawnsio i amrywiaeth o ganeuon, yn enwedig 'Yma o Hyd'!

Disgyblion y Feithrinfa yn gwisgo coch i gefnogi Cymru

Sioe Siani Sionc
Daeth Sioe Siani Sionc i'r ysgol i ddiddanu disgyblion y Feithrinfa, Derbyn a Dosbarth 1. Buon nhw'n canu, dawnsio a gwenu drwy'r bore! Diolch Siani Sionc.

Sioe Siani Sionc

Wythnos Agor Eich Llygaid
Am wythnos ym mis Tachwedd roedd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi ymuno gydag amrywiaeth o weithdai fel rhan o Wythnos Agor Eich Llygaid i danio ac ysbrydoli diddordeb disgyblion mewn ystod eang o swyddi. Ymunodd ein disgyblion Blwyddyn 5 a 6 â sesiynau dan arweiniad PWC (Price Waterhouse Cooper), BBC, Cwmni Cyfreithiol Eversheds, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Chanolfan Siopa Dewi Sant. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau amrywiol yn fawr.

Ynadon yn y Gymuned
Ymwelodd chwech o ynadon â'n disgyblion Blwyddyn 6 i roi cyflwyniad am eu rôl hynod bwysig ynghyd â'r system droseddol a chyfiawnder sifil. Dysgodd y disgyblion am y system gyfreithiol ac am eu llys lleol mewn ffordd hwyliog ac addysgiadol drwy ail-greu ffug dreial ar Seiberfwlio. Wrth iddyn nhw gymryd rhan, fe ddysgon nhw'r negeseuon pwysig am ganlyniadau difrifol Seiberfwlio yn ogystal â'r effaith niweidiol mae'n ei gael ar y dioddefwr.

Plant Mewn Angen
Buom yn dathlu 'Plant mewn Angen' drwy wisgo dillad smotiog! Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Diolch yn fawr am gyfraniadau hael ein teuluoedd. Codwyd £595.42 - gwych!

Dosbarth 2 yn dathlu
Diwrnod Plant Mewn Angen

Dosbarth 5 yn dathlu
Diwrnod Plant Mewn Angen

Belle a'r Bwystfil
Cafodd yr holl ddisgyblion o'r Derbyn i Flwyddyn 6 amser gwych yn gwylio 'Belle a'r Bwystfil', cynhyrchiad gan Gwmni Theatr M & M, yn neuadd yr ysgol.

Criw Hanfodol
Yn ddiweddar mynychodd disgyblion Dosbarth 6 weithdai Criw Hanfodol. Dull aml-asiantaeth yw Criw Hanfodol o drosglwyddo negeseuon diogelwch i ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddynt symud ymlaen i addysg uwchradd. Mwynheuodd pob un y gweithgareddau amrywiol.

Apêl Pabi Coch
Codon ni £110.96 trwy werthu pabis coch a nwyddau o'r Pecyn Plant yn yr ysgol. Diolch o galon i'n teuluoedd am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.

Twrnamaint Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i'r Tîm Pêl-rwyd am chwarae mor arbennig yn Nhwrnamaint yr Urdd yng Nghanolfan Chwaraeon Talybont ddydd Iau, 1af o Ragfyr. Cyrhaeddodd un o'n timau rownd y chwarteri. Roedd Mrs Hussey a Mrs Sims yn falch iawn o'u hymdrechion a'u llwyddiant! Rydyn ni'n hynod falch ohonoch chi i gyd - da iawn Ferched!

Tim pêl-rwyd Creigiau

Mwynhau yn Nhwrnamaint yr Urdd

Sioe Nadolig Cyw
Ymunodd disgyblion y Feithrinfa, Derbyn, Dosbarth 1 a Dosbarth 2 yn Sioe Nadolig Cyw a Cherddorfa y BBC. Cawsant lawer o hwyl yn canu a dawnsio yn ystod y sioe a oedd yn cael ei ffrydio'n fyw i'r dosbarthiadau. Diolch i'r cyflwynwyr yn enwedig Griff, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Creigiau!

Ysgol Llanhari

Jambori – Yma O Hyd
Mwynheuodd yr adran gynradd Jambori'r Urdd ar ddechrau mis Tachwedd. Roedd y Jambori yn seiliedig ar Gwpan y Byd gyda chyflwynwyr Stwnsh Sadwrn a Dafydd Iwan wrth y llyw. Braf oedd cerdded ar hyd y coridorau gan glywed bob un yn canu 'Yma o Hyd' yn angerddol.

Râs Hwyl
Fel rhan o'u thema, 'Fy nghorff arbennig' mae holl ddisgyblion blynyddoedd 2 i 4 wedi bod yn dysgu am sawl gwahanol agwedd ar fywyd. Un o'r agweddau hynny yw anableddau ac yn fwy penodol, sut gall cŵn tywys helpu pobl ddall. Yn dilyn ymweliad gan yr elusen i drafod y gwaith maent yn gwneud, penderfynwyd y byddai'r plant yn codi arian i helpu drwy gynnal ras hwyl yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i bob un.

Dathliadau Plant Mewn Angen
Diolch i bob un am gefnogi achos Plant Mewn Angen eto eleni. Gwisgodd y disgyblion ddillad eu hunain a mwynhau gweithgareddau amrywiol. Diolch i ddisgyblion y chweched am drefnu ac arwain y gweithgareddau. Diolch am eich cefnogaeth at yr achos teilwng hwn.

Llwyddiant i'r disgyblion
Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn sydd yn mwynhau tymor llwyddiannus gyda Ponty PSRU.

Ymweliad â'r Senedd
Yn dilyn gwahoddiad gan Luke Fletcher, cafodd cyngor yr ysgol brofiad arbennig ym mis Tachwedd o fynd i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Roedd ymddygiad pob un yn wych a phob un wedi dysgu llawer am waith y Senedd.

Wythnos Gwrth Fwlio
Dathlwyd Wythnos Gwrth Fwlio yn yr ysgol gyda'r disgyblion yn gwisgo sanau gwahanol er mwyn dathlu fod pawb yn unigryw. Diolch i chi am gefnogi.

Eisteddfod y Rhondda.
Roeddem yn falch o bob un a gystadlodd yn Eisteddfod y Rhondda yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad arbennig gan y côr iau a llwyddwyd ennill y wobr gyntaf. Da iawn bawb.

Diwrnod Dathlu Cymreictod
Ddydd Gwener, Tachwedd 25ain daeth y disgyblion fel 'wal goch' i'r ysgol. Roedd llawer o faneri a hetiau lliwgar i'w gweld a phob un yn barod i gefnogi'r tîm pêl droed allan yn 'Qatar'. Roedd y bwrlwm yn amlwg ymysg y disgyblion a llwyth o ddisgyblion yr uwchradd yn barod i barhau i gystadlu yn yr heriau a osodwyd. Llongyfarchiadau i Lili o Fl. 10 ac i Gruffudd o Fl. 7 ar gipio Cadeiriau Gŵyl Cymru, Qatar Llanhari â'u cerddi. Braf oedd clywed y gwaith yn y seremoni, a diolch i bawb am greu awyrgylch hyfryd yn y neuadd chwaraeon. Er mwyn dathlu hefyd, cafwyd gêm bêl-droed rhwng y staff a'r disgyblion yn y prynhawn, gyda'r disgyblion yn fuddugol 3-2. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Parhad tudalen 17 >

Ysgol Tonyrefail

Llwyddiant Dawnsio
Llongyfarchiadau mawr i Verity Walters ar ei champ arbennig yng nghystadleuaeth Dawnsio Prydain a gynhaliwyd yn Blackpool yn ddiweddar. Daeth i'r brig gyda'i phartner yn y dawnsfeydd Lladin a Ballroom o dan 10 oed. Ardderchog!

Ffair Nadolig
Diolch i'r gymdeithas rieni a staff yr ysgol am drefnu Ffair Nadolig llwyddiannus iawn. Bu pob dosbarth yn hynod brysur yn creu gwrthrychau Nadoligaidd i'w gwerthu yn y ffair - bydd yr elw a wnaethpwyd yn cael ei wario gan y disgyblion ar adnoddau i'w dosbarthiadau. Mentergarwch ar waith!

Cwpan y Byd
Mae disgyblion yr adran iau wedi bod wrthi yn cefnogi Cymru yn eu hymgyrch yng Nghwpan y Byd, yn ogystal â dysgu

am y gwahanol wledydd sydd yn cymryd rhan. Maent wedi cael y cyfle i ymuno â nifer o weithgareddau fel rhan o'r dathliadau, gan gynnwys Jambori yr Urdd a sesiwn dawnsio rhithiol a drefnwyd gan Chwaraeon RhCT.

Y Goedlan
Diolch yn fawr i Mrs Bethan Fletcher, un o lywodraethwyr yr ysgol, am ein helpu i ddatblygu'r ardal allanol a choedlan yr

ysgol. Bu aelodau'r Cyngor Ysgol a Blwyddyn 6 wrthi'n ddiwyd yn cario pentwr o risgl i greu llwybrau newydd i'r cylch pren. Mae'r plant wedi mwynhau gwrando ar storïau yn y goedlan.

Bl1 yn mwynhau stori yn yr awyr agored

Bylbiau'r Gwanwyn
Mae blwyddyn 6 wedi bod wrthi yn brysur yn plannu bylbiau'r gwanwyn ar gyfer eu gwaith, ar y cyd ag Amgueddfa Cymru, sy'n edrych ar newid hinsawdd yng Nghymru. Byddant yn cofnodi tymheredd a lefel glawiad yn ddyddiol, yn ogystal ag edrych ar dwf y bylbiau.

Bl6 yn plannu bylbiau'r gwanwyn

Plant Mewn Angen
Fel rhan o weithgareddau diwrnod Plant Mewn Angen bu aelodau o'r Cyngor

Diwrnod Dathlu Cymreictod
Ysgol Llanhari

Taith i gopa'r Affrig

Roedd Wendy Jones yn aelod o'r criw bu'n dringo ym mis Hydref - dyma ei stori.

Aeth criw o 22 ohonom ar daith i ddringo mynydd Kilimanjaro. Pwrpas y daith oedd codi arian ac ymwybyddiaeth tuag at elusen 2 wish yn Llantrisant sydd yn agos at galonnau pob un ohonom - y mwyafrif helaeth yn dod o'r ardal hon. Roedd gan bob un reswm personol dros ddringo a wynebu'r her anhygoel hon.

Cawsom lawer o hwyl - pob diwrnod yn sialens ar dirwedd hollol wahanol i'r diwrnod blaenorol o gerdded. Pump diwrnod solet o gerdded, dringo a sgramblo dros greigiau, ac ychydig iawn o gwsg

Ar ôl cyrraedd y copa ben bore ar y pumed diwrnod - uchder o 5,895 metr, dyma ruthro lawr mewn 2 ddiwrnod er mwyn arbed salwch uchder (altitude).

Taith bythgofiadwy ar gyfer elusen anhygoel sydd yn cefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc sydd wedi marw yn sydyn. Crëwyd ffrindiau ac atgofion fydd heb os yn para am oes.

Ysgol o amgylch y dosbarthiadau yn cyflwyno gweithgareddau yn seiliedig ar wahanol elusennau. Diolch i bawb am eu cyfraniad - casglwyd £217.

Aelodau'r Cyngor Eco

Chwaraeon yr Urdd
Mae nifer o ddisgyblion Blynyddoedd 4 a 5 wedi bod yn manteisio ar y cyfle i ymuno â chlwb chwaraeon yr Urdd ar ôl ysgol ar ddydd Gwener. Diolch yn fawr i'r Urdd am gynnal yr hyfforddiant yn yr ysgol.

Clwb Chwaraeon yr Urdd

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Rysetiau ar gyfer y Nadolig

Fyddai'r Nadolig ddim yn Nadolig i mi heb fy hoff ddanteithion gyda chyfraniad arogl persawrus a blas unigryw sbeisys iddynt. Mae sbeisys fel nytmeg, sinsir, seren anis, byrllysg, cardamom gwyrdd, clofs, sinamon, a sinsir yn rhan hanfodol o bobi ar gyfer yr Ŵyl. Dyma rai o'm hoff rysetiau sy'n cynnwys amrywiaeth o sbeisys.

SBEIS CYMYSG CARTREF -
20g sinamon, 15g coriander, llwy de nytmeg, ½ llwy de sinsir, ¼ llwy de halen, pinsiad o glofs, croen hanner lemwn ag oren, llwy de o siwgr brown meddal

MERINGUES AQUAFABA
Dyma gyfle i roi tro ar wneud meringues o sudd gwygbys

6 llwy fwrdd o Aquafaba (sudd gwygbys tun)
¼ llwy de Cream of Tartar
100g siwgr gwyn
½ llwy de fanila
¼ llwy de cardamom
75g sglodion siocled tywyll
75g pistachios wedi'u malu'n fras

Rhoi'r sudd gwygbys gyda'r Cream of Tartar mewn bowlen fawr. Defnyddio chwisg gan gychwyn ar gyflymder araf i greu ewyn. Yna cynyddu'r cyflymder hyd mae'r cymysgedd yn wyn a sgleiniog. Ychwanegu'r siwgr yn araf gan chwisgo'n gyflym i greu copaon sgleiniog. Ychwanegu'r fanila, cnau, cardamom a siocled tywyll
Cynhesu'r ffwrn i 120°C. Defnyddio bag

a ffroenell, neu lwy, i greu siapiau ar hambwrdd gyda phapur pobi arno. Rhoi yn y ffwrn am 45 munud yna troi'r ffwrn i ffwrdd. PEIDIO AGOR Y DRWS. Gadael y meringues yn y ffwrn am 60 munud heb agor drws y ffwrn. Eu storio mewn tun aerglos. Gweini gyda ffrwyth ffres a cheuled ffrwyth angerdd

PICL CYMYSG LLUGAERON - blasus gyda chig oer neu'r rholiau selsig llysieuol

400g llugaeron,
200g afal coginio
1 nionyn coch
Llwy de'r un o sinamon a chlofs wedi eu malu
½ llwy de'r un o turmeric a paprika
25g yr un o ddatys a sinsir ffres
400g siwgr Demerara
Croen a sudd 2 oren fach
2 lwy de o fêl
150ml yr un o finegr seidr a finegr gwin coch
2-4 jar fach

Torri'r nionyn a'r datys yn fan. Gratio'r sinsir a chroen yr orenau. Pilio a thorri'r afal yn fân.
Rhoi'r cynhwysion i gyd mewn sosban fawr a'u lled ferwi am tua 20 - 30 munud. (Rhedeg llwy bren ar draws yr wyneb ac os yw'r llwy yn gadael llwybr ar ei hôl, bydd y picl yn barod.) Yn y cyfamser, golchi'r jariau yn dda a'u rhoi ar hambwrdd pobi yn y ffwrn ar 180/nwy 5.
Rhoi'r picl yn y jariau pan mae'n dal yn boeth.

RHOLIAU SELSIG LLYSIEUOL
175g bara gwenith cyflawn wedi ei wneud yn friwsion
10g menyn
2 genhinen (tua 175g) wedi eu torri'n sleisys tenau
6 deilen saets wedi eu malu'n fan
2 llwy de o ddail teim ffres
Ychydig o bupur cayenne, halen a phupur
2 wy wedi'u curo + 1 ychwanegol
120g Parmesan wedi ei gratio yn fân
100g caws manchego wedi gratio yn fân
Crwst pwff wedi'i rolio allan yn barod
1 llwy fwrdd blawd plaen
50g llugaeron wedi rhewi
Cynhesu'r ffwrn i 200C/ ffan 180C / Nwy 6.
Leinio 2 hambwrdd pobi gyda phapur pobi.
Rhoi'r bara mewn bowlen fawr.
Toddi'r menyn mewn padell a ffrio'r cennin yn araf am 4-5 munud. Ychwanegu hanner y saets a'r teim a ffrio hyd nes maent yn feddal ond heb fynd yn frown.
Ychwanegu'r cymysgedd yma i'r briwsion bara gyda halen, pupur a cayenne
Ychwanegu'r 2 wy gyda'r caws a gweddill y saets a theim gan gymysgu'n dda. Rhannu'r cymysgedd yn ddau a rholio pob un i 14" o hyd.
Rholio'r crwst pwff i 14"x12" a'i dorri'n hanner ar ei hyd.

Rhoi rholyn 'selsig' yng nghanol y ddau ddarn o grwst a thaenu'r llugaeron dros y cymysgedd.
Brwsio'r ymylon gyda dŵr yna plygu'r crwst dros y llenwad gan wasgu ymyl y crwst yn dda.
Brwsio wy dros y crwst cyn ei dorri'n ddarnau cyfartal.
Gwneud 2 slit ar ben pob 'rholyn' a'u rhoi ar yr hambyrddau pobi. Coginio am tua 30 munud hyd nes yn euraidd.

BRIWFWYD MELYS AR GYFER MINS PEIS
50g yr un o lugaeron sych, syltanas a rhesins
25g groen cymysg (mixed peel)
25g siwgr brown
llond llwy bwrdd o chwisgi a 2 llond llwy bwrdd sieri
1 afal melys
croen 1 oren wedi gratio
1 llwy fwrdd o fel
25g almonau wedi eu malu
25g menyn
Pelen o sinsir mewn surop
Llwy de o sbeis cymysg
Cymysgwch y llugaeron, syltanas, resins, croen cymysg a'r siwgr brown gyda'r chwisgi a'r sieri. Gadwech dros nos yna ychwanegwch afal melys wedi ei dorri'n fân, croen oren wedi ei gratio, mêl, almonau, menyn wedi ei doddi a llwy de o sbeis cymysg.

Rhowch mewn jariau wedi'u sterileiddio a'u rhoi yn yr oergell. Mae'n cadw am tua 2 fis (os ydy'r cymysgedd yn edrych braidd yn sych ychwanegwch ychydig o syrop o'r jar sinsir).

CROEN SITRWS SIWGROG
4 oren neu 2 lemwn a 2 oren (heb gael eu cwyro
Seren anise a choes sinamon
Siwgr
Torri'r ffrwyth yn 8 darn a chael gwared â'r cnawd yna torri'r croen yn stribedi. Rhoi'r croen mewn sosban gyda dŵr oer a'i fudferwi am tua 5 munud. Draenio'r croen a'i orchuddio gyda dŵr ffres cyn ei fudferwi am 30 munud. Yna draenio'r croen mewn rhidyll dros jwg mesur.
Ychwanegu 100g siwgr i bob 100ml o'r dŵr a'i doddi dros wres isel yna ychwanegu'r croen a mudferwi eto am tua 30 munud neu hyd nes mae'n dryloyw a meddal. Draenio'r croen a'i roi mewn un haenen ar rac dros hambwrdd pobi a'i roi yn y ffwrn ar wres isel am tua 30 munud iddo sychu.
Taenu haenen o siwgr dros bapur pobi ar hambwrdd pobi a chymysgu'r croen iddo yna ei adael i sychu am o leiaf awr cyn ei roi mewn jar aerglos - mae'n cadw am 6-8 wythnos.

Parhad tudalen 19 >

Colofn Blasus a lachus
(Parhad)

TAFELL YR ŴYL
200g cnau Ffrengig, 100g cnau cyll a 50g almonau wedi'u torri'n fras
200g resins
100g datys wedi'u torri'n fân + 200g bricyll sych wedi eu torri'n fân
140g ceirios glace wedi eu chwarteru
100g blawd plaen
2 lwy de sbeis cymysg
½ llwy de pwdr codi
175g siwgr muscovado
3 wy wedi'u curo gyda 1 llwy de fanila
Siwgr eisin
Leinio tun bara 1.5l neu dau dun llai
Ffwrn ymlaen ar 150C/Nwy 2
Cymysgu'r cnau a'r ffrwyth sych mewn bowlen fawr. Cymysgu'r blawd, sbeis a'r pwdr codi a'u hychwanegu, gyda'r siwgr yna ychwanegu'r wyau a chymysgu popeth yn dda. Rhoi yn y tun pobi, coginio am 1½ awr yna ei adael i oeri yn y tun am tua 15 munud. Rhoi ar rac oeri a rhoi siwgr eisin ar ei ben cyn gweini sleisiau ohono

PYFFS FFIGYS A CHAWS GAFR
320g dalen crwst pwff
1 wy wedi'i guro
1 'boncyff' caws gafr wedi torri'n 18-20 darn siâp hanner lleuad
4 ffigysen wedi eu torri'n 5 lletem
½ llwy de sumac
Ychydig o fêl

Ffwrn ymlaen ar 180C/Nwy 4
Torri siapiau seren o'r crwst pyff. Defnyddio'r wy i frwsio dros y crwst.
Rhoi un darn o gaws a lletem o'r ffigysen ar eu pen a thaenu gydag ychydig o'r sumac Coginio hyd nes mae'r crwst yn frown euraidd. Taenu ychydig o fêl dros pob un a gadael iddynt oeri ychydig cyn eu gwieni.

PARSELI CORGIMWCH

200g eog wedi'i fygu
150g corgimwch wedi'u coginio
1 afocado
5 llwy bwrdd mayonnaise
3 llwy bwrdd sos coch
1 llwy bwdin saws 'Worcestershire'
Ychydig bach o Tabasco
Sudd 1 lemwn
1 llwy de paprika
Ychydig o ddail 'micro' i weini
4 ramekin wedi leinio gyda haenen lynu
Leinio'r ramekins gyda'r eog.
Paratoi'r saws Marie Rose – cymysgu'r mayonnaise, sos coch, saws Worcestershire a'r Tabasco a defnyddio sudd lemwn, halen a phupur paprika i'w flasu. Torri'r afocado yn ddarnau bach. Rhoi 4 corgimwch i un ochr, torri'r gweddill yn fras. Cymysgu'r afocado a chorgimwch gyda'r saws a'u rhannu cydrhwng y ramekins. Plygu'r eog dros y llenwad a'u rhoi yn yr oergell. I weini, troi'r parseli allan o'r ramekins ar blatiau a defnyddio corgimwch, dail micro a tipyn bach o baprica fel addurn.

GELLYG GYDA SINSIR A CHNAU FFRENGIG
4 gellyg 'conference'
50g siwgr brown meddal
20g menyn
¼ llwy de nytmeg
2 belen sinsir mewn surop wedi'u torri'n fân
60g cnau Ffrengig wedi'u torri'n fân
100g caws Stilton
Ychydig o ferwr y dŵr
Finegr balsamic
Ffwrn ymlaen 200C/Nwy 6
Torri'r gellyg yn hanner a defnyddio llwy de i gael gwared â'r hadau.
Toddi'r siwgr a'r menyn mewn sosban ac ychwanegu'r gellyg wyneb i lawr a'u gadael am ychydig o funudau i garameleiddio. Rhoi ar hambwrdd pobi a'u rhostio am 20 munud. Gadael iddynt oeri ychydig cyn tynnu peth o'r cnawd allan a'i dorri'n fân cyn ei gymysgu gyda'r cnau, Stilton, sinsir a nytmeg. Rhoi'r cymysgedd yn ôl yn y crwyn, pobi am 10 munud. Gweini gyda'r berwr y dŵr, ychydig o balsamic wedi'i ddiferu dros y dail a darnau o gnau Ffrengig.

Diwrnod Siwmper Nadolig

Dewch â gwên i'r byd mewn siwmper glyd. O jyrsis sy'n janglo i siwmperi sy'n sgleinio mae Achub y Plant yn gobeithio bydd teuluoedd, ysgolion a busnesau ar draws Cymru yn ymuno yn hwyl Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant a gynhelir eleni ar Ddydd Iau, 8fed Rhagfyr.

Nod Diwrnod Siwmper Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Ers cyflwyno Diwrnod Siwmper Nadolig am y tro cyntaf yn 2012 mae wedi codi swm o £30 miliwn ac eleni bydd Llywodraeth y DU yn cyfateb cyfraniadau punt-am-bunt hyd at gyfanswm o £2 filiwn drwy'r cynllun UK Aid Match.

Gyda'r oll sy'n digwydd ar draws y byd o ganlyniad i newid hinsawdd a thlodi a'r ffaith bod yr argyfwng costau byw yn peri cymaint o ansicrwydd i deuluoedd yma yng Nghymru, y neges yw i ailgylchu ac ail-greu yn hytrach na phrynu siwmper o'r newydd.
Adnoddau Cymraeg ar gael.
Cofrestrwch i gymryd rhan ar www.christmasjumperday.org ac unwaith i chi wneud hynny, chwiliwch am y ddolen sy'n cynnwys yr adnoddau Cymraeg sy'n cynnwys pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmper Nadolig yn llwyddiant.

Beth am wau baner o siwmperi i addurno'r tŷ neu'r swyddfa neu greu pom poms i addurno hen siwmper? Mae yma hefyd daflen o syniadau crefft ar gyfer ysgolion, cwis Nadoligadd i'r plant a phoster.

Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch gydag Eurgain Haf drwy ebostio e.haf@savethechildren.org.uk. Dilynwch ni hefyd ar Twitter @savechildrencym a Facebook @savethechildrenwales a chofiwch rannu eich lluniau gyda ni drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpernadolig.

Ysgol Garth Olwg

Pwyllgor Cydraddoldeb

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb wedi bod yn brysur dros yr hanner tymor diwethaf yn codi proffil nifer o faterion pwysig yn yr ymdrech i sicrhau bod disgyblion Garth Olwg yn ddinasyddion egwyddorol! Defnyddiodd y Pwyllgor gêm Cymru yn erbyn Iran fel cyfle i ddathlu balchder yn y gymuned LHDTC+ yn yr ysgol gan godi arian tuag at Stonewall. Gwerthwyd bathodynnau, bandiau a phaent wyneb i ddangos cefnogaeth wrth wylio gêm Cymru a chefnogodd y pwyllgor wasanaeth pwysig i dynnu sylw at anghyfiawnder ar draws y byd sydd wedi derbyn sylw diweddar oherwydd Cwpan y Byd.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi bod wrthi'n trefnu diwrnod o ddathlu diwylliant wrth werthfawrogi bwydydd melys o bob rhan o'r byd! Roedd athrawon a disgyblion yr ysgol hŷn wedi pobi amrywiaeth o gacennau melys er mwyn hybu'r hyn sydd yn gwneud ni'n unigryw a dathlu ein diwylliant yma yng Ngarth Olwg.

Mis Hanes Pobl Dduon

Yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfle i ddathlu mis pobl dduon gan roi ffocws i gyfraniad nifer o bobl dduon ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu ar gynllun Gwrth Hiliol mewn ysgolion a chymdeithas yn bwysig i sbarduno trafodaethau pwysig a gwerthfawr.

Rhoddwyd cyfle i atgyfnerthu negeseuon a thrafodaethau sydd yn digwydd o fewn gwersi yn ystod mis Tachwedd a chodi ymwybyddiaeth tuag at rai o enwogion blaengar a deinamig o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Yn ogystal â dathlu cyfraniadau positif, cafwyd cyfle i drafod anghyfiawnder wrth edrych ar straeon y 'Cardiff Five' a Mahmood Mattan fel rhan o ymdrechion Llais 21 yr ysgol. Atgyfnerthwyd hyn gyda gweithdy Marcelle Dos Santos gyda'r Ysgol Ganol yn trafod Gwrthryfel Demerara a chafodd y Pwyllgor Cydraddoldeb fudd enfawr o rannu a thrafod cynlluniau am weddill y flwyddyn gyda Marcelle i sicrhau bod y sgwrs yn parhau. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad a mewnbwn Marcelle i'r ysgol ac am rannu ei phrofiadau. Edrychwn ymlaen at groesawu Marcelle yn ôl ym mis Ionawr i ffocysu ar Ddiddymwyr Caethwasiaeth Cymraeg yn yr Ysgol Uchaf i gloi'r uned o waith gyda blwyddyn 9!

Lapio'r Nadolig yn Salem

Un bore braf ym mis Tachwedd aeth disgyblion blwyddyn 2 am dro i gapel Salem lle roedd gwledd yn disgwyl amdanynt yng nghapel Salem. Cymerodd rai o'r disgyblion ran yn sioe'r geni, ac roedd pawb wedi cael y cyfle i addurno bisgedi Nadoligaidd a chreu cardiau lliwgar i fynd adref gyda nhw. Cafodd y plant fore bendigedig yng nghwmni Adam Coleman a gwirfoddolwyr y capel. Diolch yn fawr iawn i chi.

Disgo Cymreictod.

Ychydig wythnosau yn ôl cynhaliwyd disgo Cymreictod i ddisgyblion yr Ysgol Isaf. Roedd y plant wrth eu boddau yn dawnsio gyda'i ffrindiau i gerddoriaeth Gymreig. Roedd hi yn noson i'w chofio.

Sioe Elen Benfelen

Ddechrau'r tymor aeth criw o ddisgyblion yr Ysgol Isaf i weld sioe Elen Benfelen yn Theatr y Ganolfan Gydol Oes.

Mwynheuodd pawb y sioe yn fawr iawn ac roeddent wrth eu boddau yn ail adrodd y stori i ni yn y dosbarth.

Parhad tudalen 21 >

Ysgol Garth Olwg
(Parhad)

Jambori yr Urdd

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang un bore pan gafodd disgyblion yr ysgol isaf i gyd y cyfle i gymryd rhan yn Jambori yr Urdd i ddymuno yn dda i dîm Cymru yng Nghwpan y Byd.

Sgwrs
Greta Thunberg



Cafodd ddisgyblion yr Ysgol Hŷn sy'n astudio Bioleg a Daearyddiaeth y cyfle i wrando ar seminar gan Greta Thunberg am y drychineb colled bioamrywiaeth. Sgwrs ddiddorol iawn. Diolch i @speakrs4schools am y cyfle.

Sioe Blood Brothers
Braf oedd mynd i weld Blood Brothers ar y 30ain o Dachwedd gyda disgyblion Celfyddydau'r ysgol i wylio ein cyn-ddisgybl Jay Worley yn perfformio'r brif ran.

Cyfle arbennig o dda i'r disgyblion i weld y llwybr gallant ddilyn gyda gwaith caled a dyfalbarhad. Perfformiad gwych llawn emosiwn a chanu anhygoel.

Diolch hefyd i Jay Worley am ddod i mewn i siarad gyda disgyblion yr ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed am ei brofiad.

Plant Mewn Angen
Dyma oedd ein cyfle cyntaf ni fel Senedd Garth Olwg i drefnu gweithgareddau i godi arian. Aethon ni ati i benderfynu ar weithgareddau wrth ystyried yr Ysgol Isaf i'r Ysgol Hŷn. Cawsom ni lawer o hwyl wrth wneud hyn gan fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael a chyfle i gydweithio fel un cymuned. Ar y dydd mi oedd llawer o hwyl a sbri yn yr ysgol gyda gwisg anffurfiol, stondinau a llawer o wobrau i ennill. Cyfanswm yr arian a godwyd oedd £ 1879.42! Diolch i bawb yn yr ysgol a wnaeth gyfrannu at yr elusen bwysig hon.

Cyfarfod cynghorydd addysg RhCT
Cawsom ni'r fraint o gael y cynghorydd addysg Gaynor Davies a Rhys Lewis i fynychu cyfarfod Senedd yr Ysgol yn ddiweddar. Mi oedd yn brofiad gwych i ddisgyblion i gwrdd ag aelodau addysg RhCT a chael clywed am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn y gymuned. Trafodon ni lawer o syniadau am sut i wella bywyd ysgol i ddisgyblion o bob oedran a beth yw prif bryderon ein disgyblion. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Gaynor Davies a Rhys Lewis am eu cwmni.

Ymweliad â Senedd Bae Caerdydd
Profiad gwerthfawr oedd gallu mynychu Senedd Cymru ym Mae Caerdydd gyda Senedd yr Ysgol. Siaradon ni gydag aelod o Blaid Cymru a chynrychiolydd ardal Pontypridd - Heledd Fychan. Roedd y diwrnod yn gyfle addysgiadol iawn lle'r oedd y disgyblion wedi dysgu am hanes yr ardal, gwybodaeth am y senedd a deall sut mae'r broses yn gweithio. Cawsom ni brofiad o drafod yn y siambr am faterion ein hysgol a phleidlais ar y diwedd. Fel disgyblion roedd hyn wedi ein hysbrydoli am ein dyfodol. Edrychwn ni ymlaen at ddefnyddio'r profiad yma er mwyn datblygu llwyddiant Senedd Garth Olwg.

Dathlu Cymru yng Nghwpan y Byd
Cafwyd wythnos llawn sbort yn dathlu llwyddiant Cymru wrth gyrraedd Cwpan y Byd. Cafwyd llwyth o gystadlaethau amrywiol megis ciciau o'r smotyn, keepie uppies, cwisiau a gêm bêl-droed staff yn erbyn Blwyddyn 13. Siom oedd gweld Cymru yn colli i Iran yn y Neuadd Chwaraeon ond roedd yn brofiad gwerth chweil i'r disgyblion i weld Cymru ar lwyfan byd-eang.

Cafodd y disgyblion hefyd gyfle i siarad gyda Rhodri Llywelyn o Newyddion Cymru oedd yn Qatar ar gyfer y Cwpan y Byd. Gofynnodd y disgyblion gwestiynau aeddfed iawn.

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

CogUrdd
Llongyfarchiadau i dri o Ysgol Garth Olwg sydd wedi ennill lle yn rownd cenhedlaeth CogUrdd. Da iawn i Sophie Church Blwyddyn 7, Emily Jones, Blwyddyn 10 a Darcy Hidditch Blwyddyn 6. Pob hwyl yn yr Eisteddfod dros y Sulgwyn.

Darcy Hidditch Blwyddyn 6

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf''

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)
Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

Merched y Wawr Cangen Y Garth

Braint yn wir oedd cael cwmni Sioned Erin Hughes, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion eleni yn ein cyfarfod zoom gyda Cylch Cadwgan ddechrau mis Tachwedd. Er ei bod hi'n siarad â ni o'i chartref ym Moduan - roedd mor gartrefol ei sgwrs, mor onest yn rhannu ei phrofiadau a'i theimladau - teimlem wir fel petae yma gyda ni'n bresennol. Mae'n ferch ifanc hynod ddawnus. Ei gwaith mor aeddfed - mor wreiddiol a chreadigol - bron nad oeddem yn anghofio taw merch ifanc ydoedd. Llywiodd ein prif lenor ni - Glenys Roberts y noson yn ei ffordd gartrefol, adeiladol arferol. Braf oedd cael cwmni dros drigain yn y 'gynulleidfa' - a brafiach fyth oedd medru cyfrannu i'r elusen mae Erin wedi ei sefydlu er mwyn bod o gymorth i ddioddefwyr ifanc sy'n profi gwewyr salwch meddwl - elusen a elwir Mesen - sef ffugenw Sioned Erin. Os cewch gyfle darllenwch ei chyfrol fuddugol - 'Rhyngom'. Diolch Erin; diolch Glenys; a diolch Jên - ein Swyddog Rhanbarth am weinyddu'r noson mor llyfn.

Sgwrs arbennig gan Dafydd Meredydd

Daeth criw mawr ynghyd i fwynhau cwmni Dafydd Meredydd - p'nawn Mercher, Tachwedd 16eg yng Nghlwb Rygbi, Pentyrch. Bellach mae Dafydd yn Bennaeth Gwasanaethau Cymraeg BBC Cymru ond fe'i cofiwn fel y cyflwynydd dawnus Daf Du - ar y radio a'r teledu fel ei gilydd. Rhannodd nifer o straeon annwyl a doniol gyda ni - yn ddiymhongar ar y naw! Er iddo freuddwydio am fod yn Tom Cruise, yn beilot dewr, aelod o dîm Baywatch - a bod yn wyddonydd blaenllaw - nid felly y bu! Ond roedd ei hanes mor ddifyr! Ei daith i'r brig ddim bob amser yn un esmwyth! Yn gymysg o'r dwys a'r digri gwnaethom wir fwynhau orig yn ei gwmni - ac fel tae'r hanesion eu hun ddim yn ddigon - roedd yn fodlon ateb unrhyw gwestiwn y taflwyd ato ynglŷn â darlledu Cymraeg ar hyn o bryd. A do, fe gafodd yr amlwg - ac fe'u hatebodd yn onest ac yn ddi-flewyn-ar-dafod. Diolch o galon, Dafydd Meredydd am b'nawn arbennig iawn.

Cylch Llyfryddol Caerdydd
Gwener, 20 Ionawr 2023, am 7.00pm
Trwy gyfrwng Zoom: Holi'r Prif Lenor Sioned Erin Hughes, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022, am ei chyfrol arobryn *Rhyngom*.
Manylion e-bost:
JamesEW@caerdydd.ac.uk

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Mae'r Nadolig wedi dod.....
Prosiect Medrau
01.12.22 – Canu yn y Caffi – Yr Hen Lyfrgell Porth - 12:00-13:00 – Am ddim
Dewch i ymuno â'n grŵp canu Cymraeg yn yr Hen Lyfrgell Porth. Dewch â'ch offerynnau, lleisiau neu jyst eich clustiau! Ymlaciwch gyda choffi a dewch i ddysgu a chyd ganu caneuon Cymraeg gyda ni mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol. Croeso i unrhyw lefel gallu ac unrhyw offeryn. Addas i ddysgwyr a siaradwyr newydd. Mis Rhagfyr byddwn ni'n canu carolau wrth gwrs!

Am ragor o fanylion neu i archebu lle yn un o'r digwyddiadau, cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru

Digwyddiadau Nadolig – crefftau Nadolig gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf!
Mae'r Fenter yn gyffrous i fod yn rhan o rai o ddigwyddiadau #Nadolig Rhondda Cynon Taf dros yr wythnosau nesaf. Dewch i ddweud #Shwmae! Bydd cyfle i'r plant wneud crefftau am ddim gyda ni. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gynnal gweithgareddau crefft a helpu rhedeg grotto Siôn Corn yn Ffair Nadolig Garth Olwg!
25.11.22 – Yr Hen Lyfrgell Porth 3:00yp -6:30yh
26.11.22 – Digwyddiad Tref Pontypridd 2:00yp-6:30yh
01.12.22 – Marchnad Aberdâr 5:00yp-7:yh
03.12.22 – Canolfan Garth Olwg 10:00yb-3:00yp
10.12.22 – Marchnad Aberdâr 10:30yb-1:30yp
17.12.22 – Marchnad Aberdâr 10:30yb-1:30yp

Cyfarfod Blynyddol
Bydd Cyfarfod Blynyddol y Fenter yn cael ei gynnal ar y 15fed o Ragfyr yng Nghlwb y Bont, Pontypridd am 6:00yh. Mae croeso i bawb ymuno!

Clwb Carco Aberdâr
Rydym yn edrych ymlaen at agor clwb carco newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn y flwyddyn newydd. Os oes diddordeb gyda chi ddysgu mwy neu i gofrestru eich plentyn e-bostiwch carco@menteriaith.cymru

Canrif o ddarlledu

Dewch ar daith drwy'r degawdau i ddysgu mwy am hanes y BBC yng Nghymru a sut mae canrif o ddarlledu wedi esblygu. Bydd cyfle hefyd i weld technoleg, rhaglenni a gwisgoedd y gorffennol drwy gyfrwng gwrthrychau, lluniau a fideos o'r archif.

BBC 100 yng Nghymru yw'r unig arddangosfa i nodi canmlwyddiant darlledu'r BBC yng Nghymru ac rydym yn gwahodd ymwelwyr o bob oed i rannu eu straeon eu hunain. Nod y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu – ond beth mae'r BBC yn ei olygu i chi?

Mae'r arddangosfa wedi ei chyd-ddatblygu gyda grŵp o bobl ifanc sydd yn cwestiynu cynrychiolaeth cymunedau ar y BBC a sut all y dyfodol edrych. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi hefyd – ymunwch â'r sgwrs. Dywedwch wrthym am eich atgofion a'ch safbwyntiau wrth i chi ymweld â'r arddangosfa.

10 Rhagfyr 2022 – 16 Ebrill 2023. Bydd yr arddangosfa ar agor nes 9pm ar 5 Ionawr, 2 Chwefror, 2 Mawrth a 6 Ebrill. Mynediad am ddim. Yn Amgueddfa Parc Cathays, Caerdydd

Hoffai'r tîm ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Fenter yn ystod 2022. Edrychwn ymlaen at weld chi eto yn y Flwyddyn Newydd – cyfnod cyffrous i'r sir gyda holl fwrlwm yr Eisteddfod. Edrychwn ymlaen i weld chi'n fuan a gobeithio gweld ambell i wyneb newydd yn ein gweithgareddau!

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth y tîm i gyd!

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**
Gwefan: www.menteriaith.cymru
Facebook: @MenterRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct

21+1 Noson o Ddathlu

Nos Fercher, 30 Tachwedd, cynhaliwyd noson arbennig yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd i ddathlu pen-blwydd Trac Cymru a llwyddiant Avanc, Ensemble Gwerin Ieuenctid Gymru.

Mae Trac Cymru yn dathlu traddodiadau cerddoriaeth a dawns Cymru, datblygu talent ar bob lefel o ddechreuwyr hyd at y llwyfan rhyngwladol, sicrhau bod ein celfyddydau traddodiadol yn rhan hanfodol o'n bywyd a hunaniaeth ddiwylliannol egnïol.

Yn ystod y noson bu y grŵp Avanc yn perfformio a lansio eu halbwm byw cyntaf. Mae'r CD nawr ar gael i'w brynu.

Cyngerdd NADOLIG

18 Rhagfyr 2022

CÔR GODRE'R GARTH

A CHÔR Y CWM 7yh

CAPEL Y TABERNACL, EFAIL ISAF

Tocynnau wrth y drws

Elw tuag at Tenovus

£8.00 / £3.00

BBC RADIO CYMRU

TALWRN NADOLIG

Clwb y Bont, Pontypridd
Nos Wener, 9 Rhagfyr, 7.30pm

Y MEURYN – CERI WYN JONES

TÎM Y DOETHION (O'R DWYRAIN)

Gruffudd Owen
Llio Maddocks
Llŷr Gwyn Lewis
Owain Rhys
Mari George

V

TÎM Y BUGEILIAID (TUA'R GORLLEWIN)

Tudur Dylan Jones
Lowri Lloyd
Hywel Griffiths
Eurig Salisbury
Steffan Phillips

CROESO I BAWB
DEWCH DRAW I DDATHLU'R NADOLIG!

Gwrandewch ar SOUNDS

MAE MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF YN EDRYCH I GYFLOGI

GWEITHIWR LLAWRYDD

AM GYFNOD O 3-4 MIS YN Y MAES ADDYSG OEDOLION AC IEUENCTID.

CYFLOG - £23,000 Y FLWYDDYN.

OS OES DIDDORDEB GYDA CHI CYSYLLTWCH!

post@menteriaith.cymru

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Cylch Ti a Fi

Cylch Meithrin Y Garth

Grŵp i rieni/babanod a phlant

Pryd
Dydd Gwener 1.30-3.00

Ble
Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw,
Abbey Close,
Tŷ Rhiw,
CF157RS

Mae'r Cylch Ti a Fi'n lle gwych i rieni a gwarchodwyr gwrdd i chwarae gyda'u plant ac i gymdeithasu dros baned o de!

Cyfle i...

Gymdeithasu

Chwarae gyda theganau

Dysgu caneuon bach syml

Gwarndo ar storiau

Croeso i bawb!

Am fwy o wybodaeth
cylchmeithrinygarth@gmail.com
www.meithrin.cymru

mudiad meithrin